Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Fframwaith arolygu ar gyfer gwasanaethau lleoli oedolion

Hydref 2019

© Hawlfraint y Goron 2019 WG39552 ISBN digidol 978-1-83933-543-3

# Cyflwyniad

Mae'r fframwaith arolygu hwn yn gymwys i wasanaethau lleoli oedolion.

Mae'n seiliedig ar yr egwyddorion a bennir yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ("Deddf 2014") a Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 ac fe'i lluniwyd yn benodol gan ddefnyddio Rheoliadau Gwasanaethau Lleoli Oedolion (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2019 ("Rheoliadau 2019") a'r canllawiau statudol cysylltiedig.

**Gweithredu ar sail hawliau**

Mae'r fframwaith arolygu hwn yn ystyried ein hymrwymiad i hybu a chynnal hawliau pobl sy'n defnyddio gwasanaethau gofal a chymorth. Mae hyn yn cynnwys hawliau'r bobl a nodir yn y fframweithiau cyfreithiol canlynol (ond heb fod yn gyfyngedig iddynt):

- Deddf Hawliau Dynol 1998[1]
- Deddf Cydraddoldeb 2010 [2]
- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau [3]
- Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn
- Deddf Galluedd Meddyliol 2005[4]
- Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid[5].
- Safonau'r Gymraeg [6]

Nodir rhagor o wybodaeth am ein hymrwymiad i gynnal hawliau dynol o fewn ein gwaith rheoleiddio ac arolygu ar ein gwefan[7]. Nodir rhagor o wybodaeth am ein dull arolygu sy'n seiliedig ar hawliau yn ein Cod Ymarfer ar gyfer Arolygu Gwasanaethau Rheoleiddiedig[8].

**Llesiant ac arolygu**

Mae ein dull arolygu'n ystyried egwyddorion Deddf 2014 a'r diffiniad cyfreithiol o'r gair "llesiant".

Prif ffocws yr arolygiad yw ystyried y canlyniadau llesiant cenedlaethol. Mae'r fframwaith yn helpu arolygwyr i ystyried tystiolaeth o'r ffordd y mae'r gwasanaeth yn galluogi'r bobl y mae'n eu cefnogi i gyflawni eu llesiant.

1 https://www.equalityhumanrights.com/cy/human-rights/y-ddeddf-hawliau-dynol
2 www.gov.uk/guidance/equality-act-2010-guidance
3 https://www.equalityhumanrights.com/en/our-human-rights-work/monitoring-and-promoting-un-treaties/un-convention-rights-persons-disabilities
4 http://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2005/9/contents
5 Caiff y rhain eu disodli gan Drefniadau Amddiffyn Rhyddid maes o law
6 http://www.legislation.gov.uk/wsi/2015/996/schedule/1/made/welsh
7 https://gweddill.gov.wales/docs/cssiw/general/170309humanrightscy.pdf
8 https://arolygiaethgofal.cymru/sites/default/files/2019-03/190313-cod-ymarfer-cy.pdf

Mae'r fframwaith arolygu hwn yn mapio Rheoliadau 2019 a'r canllawiau statudol cysylltiedig o dan dair thema, sef 'Gofal a Chymorth', 'Arwain a Rheoli' ac 'Yr Amgylchedd'.

Credwn y bydd y graddau y cyflawnir canlyniadau llesiant pobl yn seiliedig ar effeithiolrwydd y trefniadau sydd ar waith gan ddarparwyr gwasanaethau rheoleiddiedig o dan themâu 'Gofal a Chymorth', 'Arwain a Rheoli' ac 'Yr Amgylchedd'.

Lle y bydd canlyniadau pobl yn wael, bydd angen i ni ystyried y rhesymau dros hyn drwy'r llinellau ymholi yn y fframwaith.

Bydd arolygwyr yn cynnal eu harolygiadau drwy ystyried ein themâu arolygu, sef 'Llesiant', 'Gofal a Chymorth', 'Arwain a Rheoli' ac 'Yr Amgylchedd', ac adrodd arnynt.

| Beth yw llesiant | Canlyniadau llesiant cenedlaethol | GaCh | AaRh | AMG |
|---|---|---|---|---|
| 1. Sicrhau hawliau a hawlogaethau Hefyd yn achos oedolion: Rheolaeth ar fywyd pob dydd | • Rwy'n gwybod ac yn deall pa ofal, cymorth a chyfleoedd sydd ar gael ac yn eu defnyddio er mwyn fy helpu i sicrhau fy llesiant.<br>• Gallaf gael gafael ar y wybodaeth gywir, pan fydd ei hangen arnaf, yn y ffordd rwyf am ei chael a defnyddio'r wybodaeth hon i reoli a gwella fy llesiant.<br>• Caf fy nhrin ag urddas a pharch ac rwy'n trin eraill yn yr un ffordd.<br>• Caiff fy llais ei glywed a gwrandewir arno.<br>• Caiff fy amgylchiadau unigol eu hystyried.<br>• Rwy'n siarad drosof fy hun ac yn cyfrannu at y penderfyniadau sy'n effeithio ar fy mywyd neu mae gennyf rywun a all wneud hynny drosof. | 1- 4 | 5-7<br>9-11<br>16 | 17 |
| 2. Iechyd corfforol, iechyd meddwl a llesiant emosiynol. Hefyd yn achos plant: Datblygiad corfforol, deallusol, emosiynol, cymdeithasol ac ymddygiadol | • Rwy'n iach ac yn weithgar ac yn gwneud pethau i gadw fy hun yn iach.<br>• Rwy'n hapus ac yn gwneud pethau sy'n fy ngwneud yn hapus.<br>• Caf y gofal a'r cymorth cywir, cyn gynted â phosibl. | 1-4 | 5-11<br>16 | |
| 3. Amddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod | • Rwy'n ddiogel ac yn cael fy amddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod.<br>• Caf gymorth i amddiffyn y bobl sy'n bwysig i mi rhag camdriniaeth ac esgeulustod.<br>• Caf wybodaeth am sut i leisio fy mhryderon. | 1-4 | 5-9<br>11-16 | 17 |
| 4. Addysg, hyfforddiant a gweithgareddau hamdden | • Rwy'n gallu dysgu a datblygu i'm llawn botensial.<br>• Rwy'n gwneud y pethau sy'n bwysig i mi. | 1, 2 | 5-7<br>10, 11, 13, 16 | |
| 5. Perthnasoedd domestig, teuluol a phersonol | • Rwy'n perthyn.<br>• Rwy'n cyfrannu at berthnasoedd diogel ac iach ac yn eu mwynhau. | 1,2, 4 | 5-7<br>9, 11-12, 16 | |
| 6. Cyfraniad a wneir at y gymdeithas | • Rwy'n ymgysylltu â'm cymuned ac yn cyfrannu ati.<br>• Teimlaf fy mod yn cael fy ngwerthfawrogi mewn cymdeithas | 1,2 | 11, 16 | |
| 7. Llesiant cymdeithasol ac economaidd. Hefyd yn achos oedolion: Cymryd rhan mewn gwaith | • Rwy'n cyfrannu at fy mywyd cymdeithasol a gallaf fod gyda'r bobl a ddewisaf.<br>• Nid wyf yn byw mewn tlodi.<br>• Caf gymorth i weithio. | 1,2 | 5-7<br>10,11, 13, 16 | 17 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | • **Caf yr help sydd ei angen arnaf i dyfu a bod yn annibynnol.**<br>• **Caf ofal a chymorth drwy gyfrwng y Gymraeg os bydd angen hynny arnaf.** | | | |
| **8. Addasrwydd llety preswyl** | • **Rwy'n byw mewn cartref sy'n fy helpu orau i sicrhau fy llesiant.** | **1-3** | **5-7, 10, 13, 16** | **17** |

**<u>Gofal a Chymorth</u>**

| | Maes Asesu | Llinell ymholi | Rhif y Dudalen |
|---|---|---|---|
| 1 | Addasrwydd y gwasanaeth | **Llinell Ymholi 1:** Y graddau y mae darparwr gwasanaethau yn ystyried ystod eang o safbwyntiau a gwybodaeth, er mwyn cadarnhau bod y gwasanaeth yn gallu diwallu anghenion yr unigolyn ac yn gallu cynorthwyo pobl i gyflawni eu canlyniadau personol. **(*Rheoliad 10*)** | **8-9** |
| 2 | Datblygu ac adolygu'r cynllun personol | **Llinell Ymholi 2:** Y graddau y mae unigolion yn teimlo'n hyderus bod gan ddarparwyr gwasanaethau gynllun cywir wedi'i ddiweddaru sy'n nodi sut y caiff eu gofal ei ddarparu er mwyn diwallu eu hanghenion. **(Rheoliad 13-15)** | **10-11** |
| 3 | Safonau gofal a chymorth | **Llinell Ymholi 3:** Y graddau y mae unigolion yn cael gofal a chymorth drwy wasanaeth sydd wedi'i gynllunio drwy ymgynghori â'r unigolyn ac sy'n ystyried ei ddymuniadau personol, ei ddyheadau a'i ganlyniadau ac unrhyw risgiau ac anghenion arbenigol sy'n llywio ei ofal a'i gymorth. **(Rheoliad 17, 20)** | **12-14** |
| 4 | Diogelu | **Llinell Ymholi 5:** Y graddau y mae gan ddarparwyr gwasanaethau y mecanweithiau ar waith i ddiogelu unigolion agored i niwed y darperir gofal a chymorth ar eu cyfer. **(Rheoliad 21-22 a 24-25)** | **15-17** |

## Arwain a Rheoli

| | Maes Asesu | Llinell ymholi | Rhif y Dudalen |
|---|---|---|---|
| 5 | Llywodraethu cyffredinol | **Llinell Ymholi 1:** Y graddau y mae'r darparwr gwasanaethau'n rhoi trefniadau llywodraethu ar waith i helpu i sicrhau bod y gwasanaeth yn gweithredu'n hwylus ac i sicrhau bod sylfaen gadarn ar gyfer darparu gofal a chymorth o ansawdd da i unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth ac i roi cymorth iddynt gyflawni eu canlyniadau personol. **(Rheoliad 2, *5/6 ac 8*)** | **18-20** |
| 6 | Datganiad o ddiben | **Llinell Ymholi 2:** Y graddau y mae'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu yn unol â'r datganiad o ddiben. ***(Rheoliad 3)*** | **21** |
| 7 | Sicrhau ansawdd | **Llinell Ymholi 3:** Y graddau y mae trefniadau ar waith i sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei oruchwylio'n effeithiol, drwy brosesau sicrhau ansawdd parhaus sy'n adolygu safonau gofal a chydymffurfiaeth â rheoliadau a bod y wybodaeth a'r safbwyntiau a gesglir yn cael eu defnyddio er mwyn datblygu a gwella'r gwasanaeth yn barhaus. **(Rheoliad *4, 45, 52-55 a 58-60)*** | **22-26** |
| 8 | Cynaliadwyedd ariannol | **Llinell Ymholi 4:** Y graddau y mae'r darparwr gwasanaethau'n goruchwylio trefniadau ariannol a'r buddsoddiad yn y gwasanaeth fel ei fod yn gynaliadwy yn ariannol ac yn cynorthwyo pobl i fod yn ddiogel ac i gyflawni eu canlyniadau personol. **(Rheoliad 7)** | **27** |
| 9 | Diwylliant | **Llinell Ymholi 5:** Y graddau y mae'r darparwr gwasanaeth yn gweithredu diwylliant o fod yn agored, yn ddidwyll ac yn onest ar bob lefel ac yn sicrhau bod achosion posibl o wrthdaro buddiannau yn cael eu rheoli mewn ffordd agored. **(Rheoliad 9, 42, 62)** | **28** |
| 10 | Gwybodaeth | **Llinell Ymholi 6:** Y graddau y gall unigolion gael gafael ar wybodaeth am y gwasanaeth er mwyn eu galluogi i feithrin dealltwriaeth glir ohono a bod cofnodion sy'n ymwneud â'r ffordd y caiff y gwasanaeth ei ddarparu yn gywir, yn hygyrch ac ar gael i unigolion a'u cynrychiolwyr. | **29-30** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | **(Rheoliad 16, 40, 57)** | |
| 11 | Staffio | **Llinell Ymholi 7:** Y graddau y mae unigolion a gofalwyr lleoli oedolion yn cael cymorth gan wasanaeth sy'n darparu nifer briodol o staff addas sydd â'r wybodaeth, y cymhwysedd, y sgiliau a'r cymwysterau i ddarparu gwasanaeth sy'n helpu i gyflawni canlyniadau personol yr unigolyn. **(Rheoliad *27-32, 46-51)*** | **31-36** |
| 12 | Chwythu'r chwiban | **Llinell Ymholi 8:** Y graddau y mae pobl sy'n gweithio yn y gwasanaeth yn cael eu cefnogi i leisio pryderon am y gwasanaeth drwy weithdrefnau chwythu'r chwiban. **(Rheoliad 44, 61)** | **37-38** |
| 13 | Rheoli arian unigolyn | **Llinell Ymholi 9:** Y graddau y mae unigolion yn cael eu cefnogi i reoli eu harian. **(Rheoliad 23)** | **39** |
| 14 | Hysbysiadau | **Llinell Ymholi 10:** Y graddau y mae cyrff rheoleiddio perthnasol ac asiantaethau statudol yn cael eu hysbysu lle bydd pryderon a digwyddiadau arwyddocaol yn effeithio ar unigolion. **(Rheoliad 41, 63)** | **40** |
| 15 | Cwynion | **Llinell Ymholi 11:** Y graddau y mae'r gwasanaeth yn hyrwyddo polisi a gweithdrefn gwyno hawdd i bobl eu defnyddio ac yn dangos ei fod yn dysgu yn sgil cwynion i wella'r gwasanaeth. **(Rheoliad 43, 56)** | **41-42** |
| 16 | Gofalwyr lleoli oedolion | **Llinell Ymholi 12:** Y graddau y mae gofalwyr lleoli oedolion yn cael eu cefnogi'n effeithiol gan ddarparwyr gwasanaethau er mwyn sicrhau y gallent ddiwallu anghenion gofal a chymorth yr unigolyn sydd wedi'i leoli gyda nhw. **(Rheoliad 11-12 a 33-36*)*** | **43-46** |

**Yr Amgylchedd**

| | Maes Asesu | Llinell ymholi | Rhif y Dudalen |
|---|---|---|---|
| 17 | Yr Amgylchedd Cyffredinol | **Llinell Ymholi 1:** Y graddau y mae darparwyr gwasanaethau yn sicrhau bod gofal a chymorth yn cael eu darparu ar gyfer unigolion mewn lleoliad ac amgylchedd a, lle y bo hynny'n berthnasol, ag unrhyw gyfleusterau ac offer sy'n hyrwyddo cyflawni eu canlyniadau personol. **(Rheoliad 37-39)** | **47** |

| Gofal a Chymorth - Addasrwydd y gwasanaeth | Rheoliad Cysylltiedig: 10 |
|---|---|

**Llinell Ymholi 1:** Y graddau y mae darparwr gwasanaethau yn ystyried ystod eang o safbwyntiau a gwybodaeth, er mwyn cadarnhau bod y gwasanaeth yn gallu diwallu anghenion yr unigolyn ac yn gallu cynorthwyo pobl i gyflawni eu canlyniadau personol. (***Rheoliad 10***)

***Sut beth yw da***

***Canllawiau Statudol - Rheoliad 10 - Addasrwydd y gwasanaeth***

- Mae gan ddarparwyr gwasanaethau bolisi a gweithdrefnau ar waith ar adeg lleoli a chychwyn y gwasanaeth. Mae hyn yn cynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i'r canlynol:
    - y trefniadau ar gyfer cadarnhau bod y gwasanaeth yn gallu rhoi cymorth i'r unigolyn gyflawni ei ganlyniadau personol neu beidio;
    - proses i baru unigolion â gofalwr lleoli oedolion er mwyn sicrhau cydnawsedd;
    - y bobl yr ymgynghorir â nhw fel rhan o'r broses;
    - y wybodaeth i'w hystyried;
    - y prosesau asesu (gan gynnwys ar gyfer derbyn achosion brys) lle nad yw cynllun gofal a chymorth ar gael a phwy fydd yn cynnal yr asesiad;
    - o dan ba amgylchiadau na fydd gwasanaeth yn cael ei ddarparu;
    - cyfleoedd i ymweld â / aros gyda gofalwyr lleoli oedolion ac aelodau eraill o'r cartref;
    - y trefniadau ar gyfer cychwyn y gwasanaeth.
- Bydd crynodeb o'r weithdrefn baru a lleoli wedi'i gynnwys yn y datganiad o ddiben ac yng nghanllaw ysgrifenedig y darparwr gwasanaethau i'r gwasanaeth (gweler rheoliad 16).
- Cyn cytuno i ddarparu gwasanaeth, bydd y darparwr gwasanaethau'n gwneud penderfyniad ar sail gwybodaeth ynglŷn ag a yw'n gallu diwallu anghenion gofal a chymorth yr unigolyn. Wrth benderfynu fel hyn, bydd y darparwr gwasanaethau:
    - yn ystyried y gofynion sydd wedi'u nodi yn rheoliad 10(3);
    - yn ymgynghori â'r unigolyn a'r awdurdod sy'n lleoli (os yw'n gymwys) i benderfynu beth sy'n bwysig i'r unigolyn;
    - yn ystyried unrhyw gynllun gofal a chymorth presennol;
    - yn ystyried unrhyw risgiau i'r unigolyn, y gofalwr lleoli oedolion, aelodau o deulu'r gofalwr lleoli oedolion, unrhyw un arall sy'n byw yn y cartref sy'n rhan o drefniant lleoli oedolion, a'r staff;
    - yn cael gwybodaeth am anghenion arbenigol yr unigolyn a'i ofynion er mwyn cadarnhau bod modd diwallu'r rhain.
- Bydd y wybodaeth a geir yn ddigonol i alluogi cyfnod pontio hwylus wrth i'r unigolyn gael y gwasanaeth lleoli oedolion.
- Rhoddir ystyriaeth briodol er mwyn sicrhau y caiff yr unigolyn ei baru â gofalwr lleoli oedolion addas, a rhoddir ystyriaeth hefyd i

effaith bosibl y lleoliad ar yr unigolyn, y gofalwyr lleoli oedolion ac aelodau o deulu'r gofalwr lleoli oedolion.

- Bydd gan y bobl sy'n gwneud y penderfyniadau hyn ar ran y darparwr gwasanaethau ddigon o gyfrifoldeb/ac awdurdod yn y sefydliad i allu gwneud penderfyniad ynghylch p'un a all y gwasanaeth ddiwallu anghenion yr unigolyn.
- Gall yr unigolyn ymweld â chartref y gofalwr lleoli oedolion ac aros yno ar ymweliad prawf cyn gwneud penderfyniad i gael ei leoli. Bydd hyd unrhyw ymweliad prawf yn gymesur â hyd y lleoliad a ddisgwylir (seibiant byr neu arhosiad hir). Mae unrhyw ymweliad prawf yn galluogi'r unigolyn i:
    - ymweld ag aelodau eraill o gartref y gofalwr lleoli oedolion;
    - gweld y cartref, yr ystafell lle y byddai'r unigolyn yn aros, a'r gymuned leol.
- Os na fydd gan unigolyn gynllun gofal a chymorth eisoes ar ei gyfer – er enghraifft unigolion sy'n talu am eu gofal eu hunain – rhaid cynnal asesiad cyn cytuno i ddarparu gwasanaeth, yn unol â rheoliad 10(4).
- Lle mae angen i'r darparwr gwasanaeth gynnal ei asesiad ei hun o'r unigolyn, bydd asesiad y darparwr yn nodi'r canlynol:
    - canlyniadau personol yr unigolyn;
    - y gofal a chymorth sydd eu hangen i helpu'r unigolyn i gyflawni ei ganlyniadau personol;
    - yr hyn sydd orau gan yr unigolyn (gan ystyried unrhyw gredoau crefyddol) o ran sut gellir cyflawni'r rhain;
    - unrhyw risgiau i lesiant yr unigolyn neu'r risgiau i lesiant aelodau eraill o'r cartref a sut mae mynd ati i'w lliniaru.
- Caiff unrhyw asesiad a ymgymerir ei gwblhau drwy ymgynghori â'r unigolyn a/neu â'i gynrychiolydd.
- Lle mae'r gwasanaeth lleoli oedolion yn cynnal ei asesiad ei hun o'r unigolyn, mae'n sicrhau bod gan y staff y sgiliau a'r wybodaeth gywir i wneud hynny, yn unol â rheoliad 10(5).
- Os darperir lleoliad mewn argyfwng, dylid gwneud pob ymdrech i sicrhau cymaint o wybodaeth â phosibl (gan gynnwys asesiadau perthnasol) cyn lleoli er mwyn sicrhau bod modd i'r gwasanaeth ddiwallu anghenion yr unigolyn.

| Gofal a Chymorth - Datblygu ac adolygu'r cynllun personol | Rheoliad: 13, 14, 15 |
|---|---|

**Llinell Ymholi 2:** Y graddau y mae unigolion yn teimlo'n hyderus bod gan ddarparwyr gwasanaethau gynllun cywir wedi'i ddiweddaru sy'n nodi sut y caiff eu gofal ei ddarparu er mwyn diwallu eu hanghenion. **(Rheoliad 13-15)**

***Sut beth yw da***

***Canllawiau Statudol - Rheoliad 13 - Cynllun personol***

- Pan benderfynir y gall y darparwr gwasanaeth ddiwallu anghenion gofal a chymorth unigolion drwy leoli oedolion, bydd cynllun personol cychwynnol yn cael ei ddatblygu, ei gyd-lunio â'r unigolyn, y gofalwyr lleoli oedolion, yr awdurdod sy'n lleoli (os yw'n berthnasol) ac unrhyw gynrychiolydd (os yw'n briodol) **cyn** i'r unigolyn gael ei leoli gyda'r gofalwr lleoli oedolion.
- Mewn achos o argyfwng, bydd y cynllun personol cychwynnol ar waith o fewn 24 awr i'r unigolyn gael ei leoli gyda'r gofalwr lleoli oedolion.
- Bydd y cynllun personol cychwynnol yn cael ei adolygu a'i ddiweddaru yn ystod 7 diwrnod cyntaf defnyddio'r gwasanaeth.
- Bydd y cynllun personol yn nodi:
    - y camau sy'n ofynnol er mwyn diwallu anghenion lles, gofal a chymorth yr unigolyn o ddydd i ddydd. Mae hyn yn cynnwys manylion yr anghenion o ran gofal (gan gynnwys hunanfeddyginiaeth), yr hyn fyddai orau gan yr unigolyn a'r trefniadau ar gyfer darparu hyn, ond nid yw'n amserlen ddyddiol o weithgareddau;
    - sut bydd yr unigolyn yn cael cymorth i gyflawni ei ganlyniadau personol;
    - sut cefnogir dymuniadau, dyheadau a chredoau crefyddol yr unigolyn;
    - camau i sylwi ar y risgiau i lesiant unigolyn a sut rheolir hyn;
    - camau i gefnogi mentro cadarnhaol;
    - camau i gynnal, ail-alluogi a/neu sicrhau annibyniaeth.
- Pan fydd cynllun personol yn cael ei adolygu, caiff ei gyd-lunio â'r unigolyn, y gofalwyr lleoli oedolion, yr awdurdod sy'n lleoli (os yw'n berthnasol) ac unrhyw gynrychiolydd (os yw'n briodol).
- Bydd copi o'r cynllun personol yn cael ei ddarparu i'r unigolyn sy'n cael y gwasanaeth a'r gofalwr lleoli oedolion, mewn iaith a fformat sy'n briodol i anghenion, oedran a lefel ddealltwriaeth yr unigolyn.
- Bydd unigolion, y gofalwyr lleoli oedolion, yr awdurdod sy'n lleoli (os yw'n berthnasol) ac unrhyw gynrychiolwyr (os yw'n briodol) yn cael gwybod ynghylch sut gallant gael gafael ar y cynllun personol.

***Canllawiau Statudol - Rheoliad 14 - Adolygu cynllun personol***

- Bydd y cynllun personol yn cael ei adolygu'n barhaus ac yn cael ei ddiwygio i adlewyrchu'r newidiadau yn anghenion gofal a

chymorth yr unigolyn a'i ganlyniadau personol.

- Bydd y cynllun yn cael ei adolygu bob tri mis neu cyn hynny, os bydd anghenion yr unigolyn yn newid, ac yn unol ag unrhyw adolygiadau a gynhelir gan yr awdurdod sy'n lleoli (os yw'n berthnasol).
- Bydd adolygiadau'n cael eu cynnal gyda'r unigolyn a, lle y bo hynny'n briodol, gydag unrhyw gynrychiolydd, gyda chytundeb yr unigolyn.
- Bydd adolygiadau'n gymesur er mwyn diwallu anghenion yr unigolyn a hyd y lleoliad a gynlluniwyd / sy'n mynd rhagddo eisoes. Bydd adolygiadau'n cael eu cynnal mewn lleoliad anffurfiol / ffurfiol gan ddibynnu ar anghenion yr unigolyn.
- Yn ystod adolygiadau, ystyrir y wybodaeth a gofnodir gan y gofalwr lleoli oedolion sy'n ymwneud â'r modd y mae'r unigolyn yn cyflawni ei ganlyniadau personol. Os bydd hyn yn sylweddol wahanol i unrhyw asesiad gan gorff comisiynu ac i'r cynllun gofal a chymorth, dylid hysbysu'r comisiynydd perthnasol.

***Canllawiau Statudol - Rheoliad 15 - Cofnodion o gynlluniau personol***

- Bydd copi o'r cynllun personol ar gael ar fformat ac mewn iaith sy'n briodol ar gyfer anghenion yr unigolyn.
- Bydd unigolion, y gofalwyr lleoli oedolion, yr awdurdod sy'n lleoli (os yw'n berthnasol) ac unrhyw gynrychiolwyr yn cael gwybod ynghylch sut gallant gael gafael ar y cynllun personol.

| Gofal a Chymorth - Safonau Gofal a Chymorth | Rheoliad: 17, 18, 19, 20 |
|---|---|

**Llinell Ymholi 3:** Y graddau y mae unigolion yn cael gofal a chymorth drwy wasanaeth sydd wedi'i gynllunio drwy ymgynghori â'r unigolyn ac sy'n ystyried ei ddymuniadau personol, ei ddyheadau a chanlyniadau unrhyw risgiau ac anghenion arbenigol sy'n llywio ei ofal a'i gymorth. **(Rheoliad 17-20)**

***Sut beth yw da***

***Canllawiau Statudol - Rheoliad 17 - Safonau gofal a chymorth - gofynion cyffredinol***

- Bydd gan y darparwr gwasanaeth drefniadau ar waith er mwyn sicrhau y caiff gofal a chymorth eu darparu i'r unigolyn yn unol â'i gynllun personol, cytundeb lleoli'r unigolyn, a datganiad o ddiben y darparwr gwasanaeth.
- Bydd disgwyliadau'r darparwr gwasanaethau o ran y safonau gofal a chymorth y mae'n rhaid i ofalwr lleoli oedolion eu darparu i unigolyn sy'n cael ei leoli gyda nhw wedi'u nodi'n glir yn y datganiad o ddiben.
- Mae polisïau a gweithdrefnau'r darparwr gwasanaeth yn gymorth i gyflawni canlyniadau personol yr unigolyn.
- Bydd darparwyr gwasanaethau'n sicrhau bod y gwasanaeth yn ymatebol ac yn rhagweithiol o ran sylwi ar risgiau a'u lliniaru, a chefnogi annibyniaeth a mentro cadarnhaol lle pennwyd bod hyn yn briodol.
- Caiff gofalwyr lleoli oedolion gymorth i geisio cyngor meddygol a chymorth proffesiynol arall ar gyfer unigolion (lle y bo'n briodol). Os bydd angen, mae'r darparwr gwasanaeth yn gwneud atgyfeiriadau i'r awdurdod sy'n lleoli mewn modd amserol.
- Caiff gofalwyr lleoli oedolion eu cefnogi, drwy sesiynau goruchwylio a hyfforddiant, i sicrhau y gallant ddarparu gofal a chymorth o ansawdd uchel i ddiwallu anghenion gofal a chymorth yr unigolyn a'i alluogi i gyflawni ei ganlyniadau personol. Mae hyn yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol:
    - cydnabod arwyddion o gam-drin
    - cymorth ymddygiad cadarnhaol
    - cymorth cyntaf sylfaenol
    - hybu iechyd
- Mae darparwyr gwasanaethau yn sicrhau bod y cymorth y maent yn ei ddarparu yn galluogi gofalwyr lleoli oedolion i ddarparu gofal a chymorth o ansawdd da i'r unigolion sydd wedi'u lleoli gyda nhw mewn perthynas â'r canlynol:
    - eu llesiant corfforol, meddyliol ac emosiynol;
    - eu hanghenion diwylliannol, crefyddol, cymdeithasol neu ysbrydol;
    - eu hanghenion o ran addysg, hyfforddiant a hamdden;
    - eu perthnasoedd personol a theuluol;

- eu gallu i reoli eu bywyd bob dydd a'u cyfranogiad mewn gwaith, lle y bo hynny’n berthnasol;
  - eu datblygiad deallusol, emosiynol ac ymddygiadol;
  - eu hawliau a'u hawliadau;
  - eu hamddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod.
- Bydd gofalwyr lleoli oedolion yn cael cefnogaeth a chymorth er mwyn galluogi'r unigolyn i fod mor annibynnol â phosibl, gan gynnwys cymorth i ofalu amdanynt eu hunain fel rhoi meddyginiaeth iddynt hwy eu hunain.
- Bydd gofalwyr lleoli oedolion yn cael hyfforddiant priodol i ddeall ymddygiad a mabwysiadu strategaethau i roi cymorth i unigolion gyda’u hymddygiad i sicrhau canlyniadau a llesiant cadarnhaol.
- Caiff gofalwyr lleoli oedolion gymorth i helpu'r unigolyn i fod yn iach ac yn weithgar.
- Lle y bo hynny’n briodol, bydd darparwyr gwasanaethau yn cefnogi gofalwyr lleoli oedolion i sicrhau bod unigolion yn cael archwiliadau iechyd perthnasol a chymorth i gael adolygiadau parhaus.
- Bydd darparwyr gwasanaethau yn cefnogi gofalwyr lleoli oedolion i sicrhau bod unrhyw gymhorthion yn cael eu cynnal a’u cadw’n briodol fel eu bod yn cael eu defnyddio’n effeithiol.

***Canllawiau Statudol - Rheoliad 18 - Gwybodaeth***

- Bydd darparwyr gwasanaethau yn cefnogi gofalwyr lleoli oedolion i sicrhau y gall unigolion gymryd rhan yn y gwaith o gynllunio gofal ac adolygiadau yn ystod eu lleoliad a gwneud penderfyniadau ynghylch y ffordd y caiff gofal a chymorth eu darparu iddynt.
- Bydd darparwyr gwasanaethau yn sicrhau bod gofalwyr lleoli oedolion yn cael y wybodaeth sydd ei hangen arnynt er mwyn darparu gofal a chymorth i'r unigolyn o ddydd i ddydd yn unol â'r cynllun personol.
- Bydd gan ddarparwyr gwasanaethau drefniadau ar waith er mwyn sicrhau y gall unigolion i ddeall y wybodaeth a ddarperir iddynt.

***Canllawiau Statudol - Rheoliad 19 - Iaith a chyfathrebu***

- Bydd gan ddarparwyr gwasanaethau drefniadau ar waith i gefnogi gofalwyr lleoli oedolion gydag anghenion iaith a chyfathrebu penodol unigolyn yn unol â'r datganiad o ddiben. Os bydd angen, bydd hyn yn cynnwys rhoi mesurau ar waith i sicrhau bod yr unigolyn yn gallu cyfathrebu'n ystyrlon. Mae hyn yn cynnwys:
  - unrhyw hyfforddiant neu gymorth, lle y bo'n briodol, i gyfathrebu yn iaith yr unigolyn o ran angen a/neu ddewis;
  - lle y bo'n briodol, defnyddio dulliau cyfathrebu eraill megis System Cyfathrebu Cyfnewid Lluniau (PECS), Triniaeth ac Addysg Plant sydd ag Awtistiaeth ac Anabledd Cyfathrebu Cysylltiedig (TEACCH), Makaton, ac Iaith Arwyddion Prydain.
- Bydd darparwyr gwasanaethau'n nodi anghenion cyfathrebu unigolyn wrth benderfynu a all y gwasanaeth ddiwallu ei

anghenion.

- Gall unigolion a gofalwyr lleoli oedolion ddeall staff pan fyddant yn cyfathrebu â nhw.
- Bydd darparwyr gwasanaethau'n cynnig gwasanaeth yn Gymraeg i unigolion neu ofalwyr lleoli oedolion y mae'r Gymraeg yn iaith gyntaf iddynt, neu'n gweithio tuag at gynnig hynny.

***Canllawiau Statudol - Rheoliad 20 - Parch a sensitifrwydd***

- Bydd darparwyr gwasanaethau yn sicrhau bod unigolion yn ymwybodol o'u hawliau o dan y gyfraith, ac o dan bolisïau cydraddoldeb ac amrywiaeth a ddelir gan y darparwr gwasanaeth.
- Bydd darparwyr gwasanaethau yn cefnogi gofalwyr lleoli oedolion i sicrhau'r canlynol:
    - bod pobl yn gwrando ar yr unigolyn ac yn cyfathrebu ag ef mewn ffordd gwrtais a pharchus ac mai'r gofal a'r cymorth a roddir iddo yw prif ffocws sylw'r gofalwr lleoli oedolion;
    - bod yr unigolyn yn cael ei drin gyda pharch ac yn teimlo ei fod yn cael ei werthfawrogi.
- Caiff unigolion a gofalwyr lleoli oedolion eu hannog i fynegi eu barn, os ydynt yn dewis gwneud hynny, ar y ffordd y caiff y gwasanaeth ei redeg.

| Gofal a Chymorth – Diogelu | Rheoliad: 21, 22, 24, 25 |
|---|---|

**Llinell Ymholi 4:** Y graddau y mae gan ddarparwyr gwasanaethau y mecanweithiau ar waith i ddiogelu unigolion agored i niwed y maent yn darparu gofal a chymorth ar eu cyfer. **(Rheoliad 21-22 a 24-25)**

***Sut beth yw da***

***Canllawiau Statudol – Rheoliad 21 – Diogelu – Gofyniad Cyffredinol***

- Pan fyddant yn cychwyn y lleoliad, rhoddir gwybodaeth i unigolion a'u cynrychiolwyr am ddiogelu, sut mae lleisio pryder a pha gymorth sydd ar gael i'w galluogi i wneud hynny.
- Bydd y staff a'r gofalwyr lleoli oedolion yn gallu cael gafael ar bolisïau a gweithdrefnau diogelu sydd wedi'u diweddaru.
- Bydd y staff a'r gofalwyr lleoli oedolion yn cael hyfforddiant perthnasol i'w rôl er mwyn eu galluogi i ddeall eu cyfrifoldeb i ddiogelu ac amddiffyn unigolion agored i niwed. Bydd hyn yn cynnwys trefniadau diogelu mewnol a lleol gan gynnwys sut mae lleisio pryder (chwythu'r chwiban).
- Bydd y staff yn cael eu hyfforddi'n gyson yn unol â'r argymhellion diogelu lleol.
- Bydd y staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau unigol am leisio pryder er mwyn sicrhau diogelwch a llesiant unigolion.
- Bydd darparwyr gwasanaethau'n rhoi cymorth i staff sydd am leisio pryder ynghylch diogelu (chwythu'r chwiban).
- Bydd darparwyr gwasanaethau'n gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau a gweithwyr proffesiynol perthnasol eraill er mwyn helpu a rheoli risgiau i unigolion a chymryd rhan yn y broses ddiogelu.
- Bydd cofnodion ynghylch atgyfeiriadau a chanlyniadau diogelu'n cael eu cadw er mwyn gallu goruchwylio diogelu o fewn y gwasanaeth a chraffu arno. Rhaid i'r rheolwr a'r unigolyn cyfrifol oruchwylio'r broses o amddiffyn unigolion agored i niwed a rhaid i hynny ddigwydd o fewn y strwythur llywodraethu gyda threfniadau goruchwylio yn cael eu gwneud ar lefel bwrdd.
- Bydd darparwyr gwasanaethau yn sicrhau bod canlyniadau sy'n codi wrth atgyfeirio unrhyw achos yn ymwneud â diogelwch yn cael eu cyfleu i'r unigolyn mewn dull sy'n briodol i'w oedran a lefel ei ddealltwriaeth gan ystyried ei gyflwr penodol a/neu unrhyw anghenion o ran cyfathrebu. Caiff hyn hefyd ei gyfleu i unrhyw gynrychiolwyr (os yw'n briodol).

***Canllawiau Statudol - Rheoliad 22 - Polisïau a Gweithdrefnau***

- Mae polisi a gweithdrefnau diogelu sydd wedi'u diweddaru ar waith.
- Caiff y polisïau a'r gweithdrefnau diogelu eu cysoni â'r ddeddfwriaeth gyfredol, canllawiau cenedlaethol a gweithdrefnau diogelu lleol ar gyfer oedolion.
- Bydd y polisi a'r gweithdrefnau diogelu'n cynnwys rolau unigol a chyfrifoldebau staff a phobl eraill sy'n gweithio yn y gwasanaeth o ran nodi, derbyn a rhoi gwybod am honiadau o gam-drin, esgeulustod neu driniaeth amhriodol neu amheuaeth o gam-drin, esgeulustod neu driniaeth amhriodol. Bydd hyn yn cynnwys cyfarwyddiadau i'r staff am y camau i'w cymryd a'r mecanweithiau

ar gyfer cyfeirio pobl at yr awdurdod sy'n lleoli ac at bartneriaid ac asiantaethau perthnasol eraill.

- Mae'r polisi a gweithdrefnau diogelu yn cynnwys rôl a chyfrifoldebau gofalwyr lleoli oedolion mewn perthynas â honiadau neu ddatgeliadau o gam-drin neu driniaeth amhriodol neu gam-drin neu driniaeth amhriodol a amheuir gan unrhyw unigolyn yng nghartref y gofalwr lleoli oedolion. Bydd hyn yn cynnwys sut i roi gwybod am honiadau neu ddatgeliadau o'r fath i'r darparwr gwasanaeth, yr awdurdod sy'n lleoli (lle y bo'n berthnasol) a phartneriaid ac asiantaethau perthnasol eraill.
- Bydd darparwyr gwasanaethau'n sicrhau bod unigolion yn gwybod am eu hawl i fanteisio ar wasanaethau eiriolaeth broffesiynol annibynnol.

***Canllawiau Statudol -  Rheoliad 24 – Y defnydd priodol o reolaeth ac ataliaeth***

- Bydd gan ddarparwyr gwasanaethau bolisi a gweithdrefnau ar waith ynghylch defnyddio rheolaeth ac ataliaeth. Mae hyn yn nodi:
    - y gofyniad ar bob gofalwr lleoli oedolion o ran defnyddio rheolaeth neu ataliaeth i gydymffurfio â'r canllawiau cenedlaethol a deddfwriaeth gyfredol;
    - y gofyniad i gael hyfforddiant ar gyfer unrhyw ddulliau rheolaeth neu ataliaeth a ddefnyddir cyn defnyddio'r fath ddull rheoli neu atal.
- Bydd darparwyr gwasanaethau'n sicrhau bod dull gweithredu cadarnhaol ac adeiladol yn cael ei fabwysiadu gan ofalwyr lleoli oedolion i roi cymorth gydag ymddygiad unigolyn. Bydd unrhyw ddull o gefnogi ymddygiad yr unigolyn yn gyson â'r canlynol:
    - diwallu anghenion gofal a chymorth yr unigolyn,
    - llesiant aelodau eraill o'r teulu y darperir gofal a chymorth iddynt.
- Bydd staff a gofalwyr lleoli oedolion yn ymwybodol o'r polisi a'r gweithdrefnau ynghylch defnyddio rheolaeth ac ataliaeth, yn eu deall ac yn eu dilyn.
- Mae gofalwyr lleoli oedolion yn cael hyfforddiant ar gymorth ymddygiad sy'n berthnasol i'w rôl er mwyn sicrhau mai dim ond pan fydd hynny'n gwbl angenrheidiol, y defnyddir unrhyw ddulliau rheoli neu atal, a hynny mewn modd rhagweithiol ac yn unol â'r canllawiau cenedlaethol cyfredol.
- Bydd staff a gofalwyr lleoli oedolion yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am y polisi a'r gweithdrefnau yn unol ag unrhyw newidiadau i ganllawiau a deddfwriaeth.
- Mae darparwyr gwasanaethau'n sicrhau bod trefniadau ar waith fel bod darparwyr yn gallu cadarnhau'r canlynol pryd bynnag y bydd gofalwyr lleoli oedolion yn defnyddio dulliau rheoli neu atal:
    - eu bod ond yn cael eu defnyddio fel rhan o ddull rhagweithiol i roi cymorth ar gyfer ymddygiad;
    - eu bod yn gymesur â’r risg o niwed a difrifoldeb y niwed hwnnw i'r unigolyn a leolwyd gan y gwasanaeth neu i rywun arall;

- eu bod yn ystyried yr asesiad o anghenion yr unigolyn a'i allu i gydsynio i driniaeth o'r fath;
    - eu bod yn dilyn y ddeddfwriaeth a'r canllawiau cyfredol.
- Dylai darparwyr gwasanaethau fonitro ac adolygu'n rheolaidd yr agwedd at ddulliau rheoli ac atal a ddefnyddir gan ofalwyr lleoli oedolion, gan adrodd am hyn o fewn eu fframwaith llywodraethu. Mae hyn yn cynnwys:
    - manylion y digwyddiad a'r camau a gymerwyd i ymateb iddo;
    - digon o fanylion er mwyn gallu dadansoddi ac adolygu anghenion gofal a chymorth yr unigolyn yn ogystal â llywio adolygiad ehangach o'r gwasanaethau a ddarperir hefyd.
- Mae gan ddarparwyr gwasanaethau drefniadau ar waith er mwyn sicrhau bod y gofalwyr lleoli oedolion yn rhoi gwybod iddynt am ddigwyddiadau o reoli ac atal ac yn eu cofnodi o fewn 24 awr.
- Bydd cofnodion ar ddefnyddio dulliau rheoli ac atal yn cael eu hadolygu, a bydd adrodd yn eu cylch o fewn yr adolygiad o ansawdd gofal.

***Canllawiau Statudol - Rheoliad 25 – Amddifadu o Ryddid***

- Bydd darparwyr gwasanaethau'n gweithredu bob amser yn unol â Deddf Galluedd Meddyliol 2005 a Threfniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid yn ogystal â Chod Ymarfer Deddf Galluedd Meddyliol 2005 a Chod Ymarfer atodol Trefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid.
- Bydd staff a, lle y bo'n berthnasol, gofalwyr lleoli oedolion, yn cael eu hyfforddi ar adegau priodol ac yn unol ag unrhyw newidiadau i ddeddfwriaeth a chanllawiau er mwyn deall eu cyfrifoldeb yn unol â Deddf Galluedd Meddyliol 2005 a Threfniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid.

| Arwain a Rheoli – Llywodraethu Cyffredinol | Rheoliad Cysylltiedig: 2, 5/6, 8 |
|---|---|

**Llinell Ymholi 5:** Y graddau y mae'r darparwr gwasanaethau'n rhoi trefniadau llywodraethu ar waith i helpu i sicrhau bod y gwasanaeth yn gweithredu'n hwylus ac i sicrhau bod sylfaen gadarn ar gyfer darparu gofal a chymorth o ansawdd da i unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth ac i roi cymorth iddynt gyflawni eu canlyniadau personol. **(Rheoliad *2, 5/6 ac 8)***

**Sut beth yw da**

***Canllawiau Statudol - Rheoliad 2 - Gofynion mewn perthynas â darparu'r gwasanaeth***

- Mae gan y darparwyr gwasanaethau drefniadau clir i oruchwylio a llywodraethu'r gwasanaeth er mwyn sefydlu, datblygu a gwreiddio diwylliant sy'n sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i unigolion a gofalwyr lleoli oedolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth ac sy'n bodloni gofynion y Rheoliadau hyn. Mae hyn yn cynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i'r canlynol:
    - polisïau a gweithdrefnau i gyflawni nodau'r datganiad o ddiben ac i roi unigolion a gofalwyr lleoli oedolion yng nghanol y gwasanaeth;
    - systemau ar gyfer paru unigolion â gofalwyr lleoli oedolion cydnaws. systemau i asesu, cynllunio gofal, monitro ac adolygu sy'n cefnogi ymarfer yn seiliedig ar dystiolaeth ac yn galluogi unigolion a gofalwyr lleoli oedolion i gyflawni canlyniadau personol yr unigolyn;
    - prosesau i sicrhau bod gofal a chymorth yn cael ei roi mewn ffordd gyson a dibynadwy;
    - trefniadau staffio diogel, wedi'u hategu gan ddatblygiad proffesiynol, er mwyn cefnogi gofalwyr lleoli oedolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth i fodloni anghenion gofal a chymorth unigolion;
    - systemau ansawdd ac archwilio i adolygu cynnydd a llywio datblygiad y gwasanaeth;
    - ymagwedd ragweithiol at gyfle cyfartal ac amrywiaeth;
    - eiddo, cyfleusterau ac offer addas a hygyrch.

***Canllawiau Statudol - Rheoliad 5/6 - Gofynion mewn perthynas â'r unigolyn cyfrifol***

- Bydd gan ddarparwyr gwasanaethau systemau a phrosesau ar waith i gynnal trafodaethau ffurfiol a rheolaidd â'r unigolyn cyfrifol, ac i roi cymorth iddo.
- Bydd y darparwyr gwasanaethau'n cynorthwyo'r unigolyn cyfrifol i ddilyn hyfforddiant sy'n ei alluogi i gyflawni ei rôl yn effeithiol a chyflawni nodau'r gwasanaeth fel y maent yn y datganiad o ddiben ac yn unol â'r canllawiau ymarfer a argymhellir gan Gofal Cymdeithasol Cymru. Mae hyfforddiant ar gyfer unigolion cyfrifol yn cynnwys y canlynol:
    - fframwaith deddfwriaethol a gofynion;
    - dyletswyddau penodol unigolyn cyfrifol;

- perfformiad gwasanaeth a rheoli ansawdd;
    - siapio diwylliant gwasanaeth, ac ati.
- Os bydd unigolyn cyfrifol wedi methu â chyflawni ei rôl, bydd y darparwr gwasanaethau'n hysbysu'r rheoleiddiwr gwasanaethau am unrhyw gamau a gymerwyd a, lle y bo hynny'n berthnasol, yn ei gynghori ynghylch y trefniadau ar gyfer dynodi rhywun yn ei le.
- Os na fydd unigolyn cyfrifol neu os nad yw'r unigolyn cyfrifol yn gallu cyflawni ei ddyletswyddau am ba bynnag reswm, er enghraifft am ei fod yn absennol o'i rôl oherwydd salwch, bydd y darparwr gwasanaethau'n sicrhau bod y cyfrifoldeb dros orchwylio'r gwaith o reoli'r gwasanaeth, fel y nodir yn Rhannau 12 i 16 o'r Rheoliadau, yn dal i gael ei fodloni dan drefniadau eraill.

[*Os mai unigolyn yw'r darparwr gwasanaeth*]

- Mae'r unigolyn cyfrifol yn ymgymryd â hyfforddiant sy'n ei alluogi i gyflawni ei rôl yn effeithiol a chyflawni nodau'r gwasanaeth fel yr amlinellir yn y datganiad o ddiben ac yn unol â'r canllawiau ymarfer a argymhellir gan Gofal Cymdeithasol Cymru. Mae'r hyfforddiant yn cynnwys y canlynol:
    - fframwaith deddfwriaethol a gofynion;
    - dyletswyddau penodol unigolyn cyfrifol;
    - perfformiad gwasanaeth a rheoli ansawdd;
    - llunio diwylliant gwasanaeth, ac ati
- Os nad yw'r unigolyn cyfrifol yn gallu cyflawni ei ddyletswyddau am ba reswm bynnag, er enghraifft am ei fod yn absennol o'i rôl oherwydd salwch, bydd yr unigolyn cyfrifol yn sicrhau bod trefniadau amgen ar waith er mwyn sicrhau bod gofynion rheoliad 6(3) yn cael eu bodloni.

***Canllawiau Statudol - Rheoliad 8 - Gofynion i ddarparu'r gwasanaeth yn unol â pholisïau a gweithdrefnau***

- Bydd gan ddarparwyr gwasanaethau'r polisïau a'r gweithdrefnau ar waith fel sy'n ofynnol gan y Rheoliadau.
- Bydd y polisïau a'r gweithdrefnau yn gymesur â'r gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu yn unol â'r datganiad o ddiben. Lle y bo'n berthnasol, mae polisïau a gweithdrefnau yn ystyried anghenion aelodau eraill o gartref y gofalwr lleoli oedolion.
- Mae darparwyr gwasanaethau'n sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau yn adlewyrchu trefniadau ar gyfer seibiannau byrdymor i unigolion, lle y caiff y rhain eu darparu gan y darparwr gwasanaeth.
- Bydd polisïau a gweithdrefnau:
    - yn unol ag unrhyw ddeddfwriaeth a chanllawiau cenedlaethol cyfredol;
    - yn cynnig arweiniad i staff i sicrhau bod y gwasanaethau yn cael eu darparu yn unol â'r datganiad o ddiben;
    - yn pennu gofynion a fydd yn rhoi gwybod i'r unigolion, y gofalwyr lleoli oedolion ac unrhyw gynrychiolwyr am sut y

darperir y gwasanaeth.

- Bydd y polisïau, y gweithdrefnau a'r arferion yn cael eu hadolygu a'u diweddaru yng ngoleuni newidiadau i arferion, deddfwriaeth sy'n newid ac argymhellion ynglŷn â'r arferion gorau.
- Bydd cyfle i'r staff, yr unigolion a'r gofalwyr lleoli oedolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth ymwneud â datblygu polisïau a gweithdrefnau.
- Os bydd y datganiad o ddiben yn newid, bydd y polisïau a'r gweithdrefnau'n cael eu hadolygu a'u diweddaru i adlewyrchu'r newidiadau.
- Bydd darparwyr gwasanaethau'n sicrhau bod staff yn gallu cael gafael ar y polisïau a'r gweithdrefnau sy'n help iddynt sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i unigolion, a'u bod yn gwybod am y polisïau a'r gweithdrefnau hynny ac yn eu deall.
- Bydd yr holl bolisïau a gweithdrefnau ar gael ar gais i'r unigolion a'r gofalwyr lleoli oedolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, unrhyw gynrychiolwyr a, lle y bo hynny'n briodol, i'r awdurdodau perthnasol sy'n lleoli.
- Bydd y polisïau a'r gweithdrefnau ar fformat hygyrch i’r unigolyn a'r gofalwyr lleoli oedolion a darperir cymorth i'w helpu i ddeall y rhain.
- Bydd systemau ar gyfer monitro a gwella yn cynnwys y rheini sy’n sicrhau bod y gwasanaethau'n cael eu cynnal yn unol â'r polisïau a'r gweithdrefnau.

| Arwain a Rheoli – Datganiad o Ddiben | Rheoliad Cysylltiedig: 3 |
|---|---|

**Llinell Ymholi 6:** Y graddau y mae'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu yn unol â'r datganiad o ddiben. **(Rheoliad *3)***

**Sut beth yw da**

***Canllawiau Statudol - Rheoliad 3 - Datganiad o Ddiben***

- Mae'r datganiad o ddiben yn hanfodol i'r gwasanaeth. Dylai wneud y canlynol:
    - disgrifio'r gwasanaethau a ddarperir yn gywir, gan gynnwys unrhyw drefniadau ar gyfer darpariaeth seibiannau byrdymor;
    - dweud ymhle a sut y darperir y gwasanaethau hyn;
    - nodi'r trefniadau i gefnogi sut y darperir y gwasanaethau.
- Rhaid iddo gynnwys y wybodaeth sydd yn Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Cofrestru) (Cymru) 2017.
- Wrth baratoi datganiad o ddiben, rhaid i'r darparwr gwasanaeth ystyried unrhyw ganllawiau ynghylch datganiad o ddiben a ddarperir gan y rheoleiddiwr gwasanaethau.
- Bydd darparwyr gwasanaethau yn adolygu ac yn diweddaru'r datganiad o ddiben bob blwyddyn, o leiaf, neu'n gynt os bydd newidiadau'n cael eu gwneud i'r gwasanaeth a ddarperir.
- Os bwriedir newid y gwasanaeth a ddarperir, bydd y datganiad o ddiben yn cael ei ddiweddaru i adlewyrchu'r newid hwnnw. Bydd y darparwr yn rhoi gwybod i'r unigolion hynny a nodir yn rheoliad 3(6) o leiaf 28 diwrnod cyn gwneud y newidiadau. Mae enghraifft o hyn yn cynnwys newidiadau i'r trefniadau staffio arferol neu lefelau fel sydd wedi'i nodi yn y datganiad o ddiben sy'n bodoli'n barod.
- Os bydd bwriad i newid y gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu a hynny ar unwaith, h.y. o fewn y cyfnod hysbysu o 28 diwrnod (fel sy'n ofynnol o dan reoliad 6(3)), er enghraifft mewn ymateb i gais brys, rhaid i'r darparwr gwasanaeth:
    - hysbysu rheoleiddiwr y gwasanaeth ar unwaith (a lle y bo'n ymarferol, cyn gwneud y newid);
    - diweddaru'r datganiad o ddiben er mwyn adlewyrchu'r newid a hynny'n ddi-oed, a darparu copi i'r rheoleiddiwr gwasanaethau.
- Os cynigir newid yn y datganiad o ddiben, bydd y darparwr gwasanaethau'n bodloni rheoleiddiwr y gwasanaeth ei fod yn gallu darparu'r gwasanaethau a gynigir drwy, er enghraifft, roi rhagor o wybodaeth neu drefnu ymweliad gan y rheoleiddiwr â'r gwasanaeth (lle y bo hynny'n briodol).
- Os caiff y datganiad o ddiben ei ddiweddaru, cedwir cofnod o'r fersiwn a'r dyddiad diwygio.
- Mae copi o'r datganiad o ddiben ar gael ac yn hygyrch i'r sawl a restrir yn rheoliad 3(6).

| Arwain a Rheoli – Sicrhau Ansawdd | Rheoliad Cysylltiedig: 4, 45, 52, 53, 54, 55, 58, 59, 60 |
|---|---|

**Llinell Ymholi 7:** Y graddau y mae trefniadau ar waith i sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei oruchwylio'n effeithiol, drwy brosesau sicrhau ansawdd parhaus sy'n adolygu safonau gofal a chydymffurfiaeth â rheoliadau a bod y wybodaeth a'r safbwyntiau a gesglir yn cael eu defnyddio er mwyn datblygu a gwella'r gwasanaeth yn barhaus. **(Rheoliad *4, 45, 52-55 a 58-60)***

**Sut beth yw da**

***Canllawiau Statudol - Rheoliad 4 - Gofynion mewn perthynas â monitro a gwella***

- Bydd gan ddarparwyr gwasanaethau systemau a phrosesau ar waith i fonitro, adolygu a gwella ansawdd y gwasanaethau. Bydd hyn yn cynnwys nodi:
    - pwy sy'n gyfrifol am sicrhau bod hyn yn cael ei wneud;
    - sut y bydd hyn yn cael ei wneud;
    - pa mor aml y bydd hyn yn digwydd;
    - trefniadau er mwyn i'r unigolyn cyfrifol adrodd wrth y rheoleiddiwr gwasanaethau.
- Bydd canlyniad unrhyw adolygiad yn cael ei ddadansoddi a'i adolygu gan bobl sydd â'r wybodaeth, y sgiliau a'r cymhwysedd priodol i ddeall ei arwyddocâd ac i gymryd camau i sicrhau bod pethau'n gwella. Bydd darparwyr gwasanaethau'n ceisio cyngor proffesiynol/arbenigol yn ôl yr angen ac yn brydlon i helpu i sicrhau gwelliannau.
- Bydd darparwyr gwasanaethau'n gallu dangos sut y maent:
    - wedi dadansoddi'r wybodaeth a gasglwyd ac ymateb iddi;
    - wedi defnyddio'r wybodaeth i wella pethau.
- Bydd darparwyr gwasanaethau'n monitro'r cynnydd o'i gymharu â chynlluniau i wella ansawdd a diogelwch gwasanaethau ac yn cymryd camau priodol ar unwaith oni lwyddir i sicrhau'r cynnydd disgwyliedig.
- Bydd y systemau a'r prosesau'n cael eu hadolygu'n barhaus i sicrhau eu bod yn galluogi'r darparwr gwasanaethau i weld ymhle y mae rhywbeth yn amharu neu y gallai rhywbeth amharu ar ansawdd gwasanaethau, ac i alluogi ymateb prydlon priodol.
- Fel rhan o'r broses adolygu ansawdd, bydd darparwyr gwasanaethau:
    - yn annog adborth;
    - yn ceisio barn gofalwyr lleoli oedolion ac unigolion yn rheolaidd am ansawdd y gofal a'r cymorth mewn lleoliadau;
    - yn gallu dangos eu bod wedi gwneud hyn ac wedi dadansoddi'r adborth y maent wedi'i gael;

- yn adolygu ansawdd safleoedd y caiff lleoliadau eu cynnal.

- Bydd y dulliau a ddefnyddir i gysylltu â'r unigolion a restrir yn rheoliad 4(2), ac i gael eu barn, yn briodol i'w hoedran, lefel eu dealltwriaeth ac yn ystyried unrhyw gyflwr penodol a/neu anghenion cyfathrebu.
- Defnyddir gwybodaeth a gesglir drwy'r systemau ansawdd ac archwilio i ddatblygu'r adroddiad adolygu ansawdd gofal yn unol â rheoliad 59(4).

***Canllawiau Statudol - Rheoliad 45 - Goruchwylio'r gwaith o reoli'r gwasanaeth***

- Bydd yr unigolyn cyfrifol yn dilyn y systemau a'r prosesau a ragnodwyd gan y darparwr gwasanaethau er mwyn galluogi goruchwyliaeth briodol dros reolaeth, ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd y gwasanaeth. Bydd hyn yn cynnwys sicrhau bod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol, ond nid dim ond hynny:
    - canolbwyntio ar anghenion yr unigolyn a chefnogi'r gofalwr lleoli oedolion;
    - gwrando ar unigolion a gofalwyr lleoli oedolion;
    - ymateb yn gadarnhaol i unrhyw bryderon neu gwynion;
    - sicrhau nad yw unigolion na gofalwyr lleoli oedolion yn cael eu rhoi mewn perygl diangen;
    - sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i unigolion a gofalwyr lleoli oedolion;
    - cyflawni'r datganiad o ddiben;
    - cyflogi nifer ddigonol o staff sydd wedi'u hyfforddi, sy'n gymwys ac yn fedrus i gyflawni eu rôl.
- Bydd gan yr unigolyn cyfrifol systemau i adolygu ac asesu sut mae'r rheolwr yn rhoi camau ar waith a nodwyd yng nghanfyddiadau adroddiadau sicrhau ansawdd mewnol ac arolygu allanol, o fewn yr amserlenni a bennwyd.
- Bydd llinellau atebolrwydd, dirprwyo a chyfrifoldeb clir ar gael yn ysgrifenedig rhwng yr unigolyn cyfrifol a'r rheolwr (heblaw mai'r rheolwr yw'r unigolyn cyfrifol hefyd).
- Bydd trefniadau ar waith i'r rheolwr allu cysylltu'n uniongyrchol â'r unigolyn cyfrifol yn ogystal â'r cyfle i gyfarfod yn ffurfiol fel rhan o adolygiadau ansawdd yr unigolyn cyfrifol (heblaw mai'r rheolwr yw'r unigolyn cyfrifol hefyd).
- Bydd trefniadau ar waith i sicrhau bod y rheolwr yn cael cymorth drwy ei oruchwylio a'i hyfforddi, a rhoi cyfle iddo feddu ar sgiliau ar gyfer ei ddatblygiad proffesiynol sy'n gefn iddo yn ei rôl.

***Canllawiau Statudol - Rheoliad 52 - Ymweliadau***

- Bydd yr unigolyn cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth yn bersonol i fonitro perfformiad y gwasanaeth mewn perthynas â'i ddatganiad o ddiben ac i lywio'r adolygiad o ansawdd y gofal. Bydd yr ymweliad yn cynnwys y canlynol:
    - siarad, gyda chydsyniad ac yn breifat, â sampl o unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, unrhyw gynrychiolwyr, gofalwyr lleoli oedolion a'r staff;

    - arolygu safle'r darparwr gwasanaeth, dewis o gofnodion o ddigwyddiadau ac unrhyw gofnodion o gwynion.
- Bydd yr unigolyn cyfrifol yn sicrhau bod systemau ar waith i ddarparu tystiolaeth bod ymweliadau wedi'u logio a'u cofnodi.

***Canllawiau Statudol - Rheoliad 53 - Goruchwylio digonolrwydd adnoddau***

- Bydd yr unigolyn cyfrifol yn sicrhau bod systemau a phrosesau ar waith sy'n eu galluogi i gasglu gwybodaeth am y gwasanaeth ac unrhyw feysydd lle y gall fod angen arsylwi/ystyriaeth fwy gofalus a/neu wella. Mae hyn yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol:
    - trosiant staff;
    - lefelau salwch staff;
    - cwynion;
    - materion diogelu;
    - adroddiadau arolygu gan y rheoleiddiwr gwasanaethau;
    - canlyniadau arolygu a/neu adroddiadau gan asiantaethau perthnasol eraill, h.y. yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch a'r gwasanaeth tân.
- Bydd gan yr unigolyn cyfrifol drefniadau addas i roi gwybod ar unwaith i'r darparwr gwasanaethau os bydd y gwasanaeth:
    - yn methu â chydymffurfio â pholisïau a gweithdrefnau;
    - yn methu â mynd i'r afael â materion a godwyd mewn adroddiadau arolygu neu ddim yn gallu gwneud hynny;
    - yn cael ei ddarparu mewn ffordd sy'n groes i'r datganiad o ddiben.

***Canllawiau Statudol - Rheoliad 54 - Adroddiadau eraill i'r darparwr gwasanaeth***

- Bydd yr unigolyn cyfrifol yn sicrhau bod trefniadau addas ar waith i roi gwybod i'r darparwr gwasanaethau yn unol â gofynion Rheoliadau 54 a 59.
- Bydd gan yr unigolyn cyfrifol system ar waith i gyflwyno adroddiadau i'r darparwr gwasanaethau sy'n adlewyrchu'n gywir ansawdd a pherfformiad y gwasanaeth yn gyffredinol. Bydd hyn yn cynnwys trefniadau i'r unigolyn cyfrifol roi adborth ac i roi gwybod am unrhyw faterion brys y mae gofyn cymryd camau yn eu cylch ar unwaith. Mae hyn yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol:
    - marwolaeth unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth neu ofalwyr lleoli oedolion yn annisgwyl neu heb esboniad;
    - argyfwng naturiol;
    - afreoleidd-dra ariannol;
    - achosion sylweddol o haint;
    - pryderon sylweddol a godwyd gan reoleiddiwr y gwasanaeth neu'r comisiynwyr;
    - unrhyw ddigwyddiad, sy'n effeithio ar y staff sydd ar gael.

***Canllawiau Statudol - Rheoliad 55 - Ymgysylltu ag unigolion ac eraill***

- Bydd gan yr unigolyn cyfrifol drefniadau addas i alluogi adborth ar bob agwedd ar y gwasanaeth a ddarperir a sicrhau bod y trefniadau hyn yn hygyrch i bob un o'r rheini a restrir o dan reoliad 55(1), ac yn ystyried eu barn.
- Bydd yr unigolyn cyfrifol yn sicrhau bod y dulliau a ddefnyddir i gysylltu ag unigolion a'r gofalwyr lleoli oedolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, ac i gael eu barn, yn briodol i'w hoedran, lefel eu dealltwriaeth ac yn ystyried unrhyw gyflwr penodol neu anghenion cyfathrebu.
- Bydd gan yr unigolyn cyfrifol berthynas gadarnhaol â phobl y tu allan i'r gwasanaeth, a bydd ar gael yn hwylus i'r bobl hynny. Mae hyn yn cynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i'r canlynol:
    - Yr unigolyn a/neu'r cynrychiolydd;
    - gofalwyr lleoli oedolion;
    - awdurdodau comisiynu;
    - rheoleiddwyr;
    - cyrff proffesiynol.

***Canllawiau Statudol - Rheoliad 58 - Dyletswydd i sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau yn gyfredol***

- Bydd yr unigolyn cyfrifol yn sicrhau bod trefniadau addas ar waith i adolygu polisïau a gweithdrefnau, a nodwyd yn rheoliad 8 yn unol â'r rheoliadau hyn.
- Bydd yr unigolyn cyfrifol yn sicrhau bod trefniadau addas ar waith fel bod staff a gofalwyr lleoli oedolion yn gallu cael gafael ar y polisïau a'r gweithdrefnau i'w helpu i sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i unigolion, a'u bod yn gwybod am y polisïau a'r gweithdrefnau hynny ac yn eu deall.

***Canllawiau Statudol - Rheoliad 59 - Adolygiad o ansawdd y gofal***

- Bydd gan yr unigolyn cyfrifol drefniadau addas ar waith i asesu, monitro a gwella ansawdd a diogelwch y gwasanaeth. Mae hyn yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol:
    - casglu a dadansoddi'r adborth gan y rheini a restrir o dan reoliad 55(1);
    - casglu a dadansoddi'r adborth ar y gofal a'r cymorth a ddarperir i unigolyn mewn lleoliad;
    - materion a gwersi a ddysgwyd wrth ddadansoddi cwynion a materion diogelu;
    - materion sy'n codi o'r gwaith o fonitro digonolrwydd ac ansawdd safleoedd lleoli oedolion.
    - patrymau a thueddiadau a nodwyd drwy ddadansoddi hysbysiadau, materion diogelu, pryderon o ran chwythu'r chwiban, a chwynion;
    - canlyniad unrhyw adroddiadau arolygu gan y rheoleiddiwr gwasanaethau;

- canlyniad ymweliadau gan yr unigolyn cyfrifol i fonitro'r gwasanaeth;
- archwiliadau o gofnodion.

- Bydd yr unigolyn cyfrifol yn sicrhau bod y systemau archwilio a'r prosesau ar gyfer monitro ac adolygu'r gwasanaeth yn rhoi sicrwydd bod gwasanaeth o safon uchel yn cael ei ddarparu, sy'n cyflawni'r canlyniadau gorau posibl i unigolion.
- Bydd gan yr unigolyn cyfrifol drefniadau addas ar waith i sicrhau bod systemau a phrosesau yn cael eu hadolygu'n rheolaidd i alluogi'r unigolyn cyfrifol i weld ymhle y mae neu y gallai ansawdd a/neu ddiogelwch gwasanaethau fod dan fygythiad, gan ymateb yn briodol ac yn ddi-oed.
- Bydd gan yr unigolyn cyfrifol drefniadau addas ar waith i sicrhau y caiff unrhyw adborth ei gydnabod a'i gofnodi ac yr ymatebir iddo fel sy'n briodol.
- Bydd gan yr unigolyn cyfrifol drefniadau addas ar waith i sicrhau bod meysydd dysgu yn sgil cwynion, diogelu a chwythu'r chwiban yn cael eu rhannu â'r staff i wella'r gwasanaeth ac i annog arferion diogel a thosturiol ym maes gofal.
- Bydd yr unigolyn cyfrifol yn sicrhau bod meysydd dysgu yn cael eu dadansoddi a bod argymhellion yn cael eu gwneud i'r darparwr gwasanaethau ynghylch sut ac ymhle y gellir gwella ansawdd a diogelwch y gwasanaeth. Bydd yr adroddiad, sy'n cynnwys y wybodaeth sydd wedi bod yn sail iddo (yn ymwneud â'r meysydd hynny a nodir uchod) yn llywio neu'n ffurfio rhan o'r datganiad cydymffurfio i'w gynnwys yn natganiad blynyddol y darparwr gwasanaethau.

***Canllawiau Statudol - Rheoliad 60 - Datganiad o gydymffurfedd â'r gofynion o ran safonau gofal a chymorth***

- Bydd yr unigolyn cyfrifol wedi paratoi'r wybodaeth a ddarperir yn y datganiad cydymffurfio a datganiad blynyddol y darparwr gwasanaethau, a bydd yn atebol am ei hansawdd a'i chywirdeb.

| Arwain a Rheoli – Cynaliadwyedd ariannol | Rheoliad Cysylltiedig: 7 |
|---|---|
| **Llinell Ymholi 8:** Y graddau y mae'r darparwr gwasanaethau'n goruchwylio trefniadau ariannol a'r buddsoddiad yn y gwasanaeth fel ei fod yn gynaliadwy yn ariannol ac yn cynorthwyo pobl i fod yn ddiogel ac i gyflawni eu canlyniadau personol. **(Rheoliad 7*)*** | |
| **Sut beth yw da** | |

***Canllawiau Statudol - Rheoliad 7 - Gofynion mewn perthynas â chynaliadwyedd ariannol y gwasanaeth***

- Bydd systemau ar waith i sicrhau bod gwaith cynllunio ariannol, monitro'r gyllideb a rheolaeth ariannol yn cael ei wneud yn effeithiol.
- Bydd systemau ar waith i sicrhau sefydlogrwydd ariannol a diogelu'r defnyddiwr yn unol ag unrhyw ganllawiau cenedlaethol a rheoliadau ariannol.
- Bydd gan ddarparwyr gwasanaethau yr adnoddau ariannol sydd eu hangen i ddarparu ac i barhau i ddarparu'r gwasanaethau a ddisgrifir yn y datganiad o ddiben ac er mwyn bodloni gofynion y Rheoliadau.
- Bydd gan ddarparwyr gwasanaethau yswiriant priodol a threfniadau digolledu priodol ar waith i warchod rhag rhwymedigaethau posibl yn sgil marwolaeth, anaf, neu achosion eraill, colled neu ddifrod i eiddo, a risgiau ariannol eraill.
- Os na fydd cyfrifon archwiliedig ar gael, bydd cyfrifon blynyddol yn cael eu cwblhau gan gyfrifydd cymwys at bwrpas rheoleiddio ac archwilio.
- Bydd y cyfrifon yn dangos bod y gwasanaeth yn ariannol hyfyw ac yn debygol o fod â digon o arian i barhau i gyflawni ei wasanaeth fel y nodir yn y datganiad o ddiben.
- Bydd y darparwr gwasanaeth yn sicrhau y caiff taliadau prydlon eu gwneud i ofalwyr lleoli oedolion ar gyfer unrhyw lwfansau neu dreuliau y cytunwyd arnynt, sy'n talu costau darparu gofal a chymorth i unigolyn.
- Mae'r darparwr gwasanaeth yn sicrhau bod gofalwyr lleoli oedolion yn deall y cymorth ariannol neu gymorth arall sydd ar gael iddynt.

| **Arwain a Rheoli – Diwylliant** | **Rheoliad Cysylltiedig: 9, 42, 62** |
|---|---|
| **Llinell Ymholi 9:** Y graddau y mae'r darparwr gwasanaeth yn gweithredu diwylliant o fod yn agored, yn ddidwyll ac yn onest ar bob lefel ac yn sicrhau bod achosion posibl o wrthdaro buddiannau yn cael eu rheoli mewn ffordd agored. **(Rheoliad 9, 42, 62*)*** | |

**Sut beth yw da**

***Canllawiau Statudol - Rheoliad 9 - Dyletswydd gonestrwydd (darparwr gwasanaeth)***

- Bydd gan ddarparwyr gwasanaethau bolisïau a gweithdrefnau ar waith a fydd yn gefn i ddiwylliant o fod yn agored ac yn dryloyw, ac yn sicrhau bod y staff i gyd yn ymwybodol ohonynt ac yn eu dilyn. Mae’r polisïau a'r gweithdrefnau hyn yn dilyn ac yn ystyried canllawiau Gofal Cymdeithasol Cymru ar ddyletswydd gonestrwydd proffesiynol ar gyfer gweithwyr proffesiynol ym maes gofal cymdeithasol sydd wedi’u cofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru.
- Bydd darparwyr gwasanaethau'n hybu diwylliant sy'n annog pawb i fod yn onest sy’n cynnwys:
  - bod yn agored ac yn onest wrth gysylltu â'r unigolion a restrir yn rheoliad 9 (a)-(d);
  - rhoi gwybodaeth am ddigwyddiadau a chanlyniad unrhyw ymchwiliadau a gynhaliwyd;
  - cynnig ymddiheuriad am yr hyn sydd wedi digwydd, lle y bydd gwneud hynny yn briodol.
- Bydd darparwyr gwasanaethau'n cymryd camau i atal bwlio, erlyn a/neu aflonyddu ac yn mynd i'r afael â'r rhain yn briodol, gyda golwg ar y ddyletswydd gonestrwydd, ac i ymchwilio i unrhyw ddigwyddiad lle mae’n bosibl bod aelod o'r bwrdd, unigolyn cyfrifol, aelod o'r staff neu unrhyw berson arall wedi rhwystro rhywun arall rhag cyflawni ei ddyletswydd gonestrwydd yntau.
- Bydd gan ddarparwyr gwasanaethau system ar waith i sylwi ar achos posibl o dorri'r ddyletswydd gonestrwydd gan staff sydd wedi'u cofrestru'n broffesiynol, ac i ymdrin â hynny. Gall hyn gynnwys rhwystro rhywun arall rhag cyflawni ei ddyletswydd broffesiynol i fod yn onest. Cymerir camau i fynd i’r afael â thorri amodau o’r fath yn cynnwys, lle y bo hynny’n briodol, gyfeirio rhywun at y rheoleiddiwr proffesiynol neu at gorff perthnasol arall.

***Canllawiau Statudol – Rheoliad 42 – Gwrthdaro buddiannau***

- Bydd darparwyr gwasanaethau'n cynnal systemau priodol ac yn cymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod gwrthdaro gwirioneddol neu wrthdaro ymddangosiadol rhwng buddiannau'n cael eu nodi, eu hatal a'u cofnodi'n agored.

***Canllawiau Statudol - Rheoliad 62 - Dyletswydd Gonestrwydd (Unigolyn Cyfrifol)***

- Bydd yr unigolyn cyfrifol yn gweithredu mewn modd agored a thryloyw gan sicrhau hefyd fod trefniadau addas ar waith er mwyn sicrhau y cydymffurfir â gofynion rheoliad 62.

| Arwain a Rheoli – Gwybodaeth | Rheoliad Cysylltiedig: 16, 40, 57 |
|---|---|

**Llinell Ymholi 10:** Y graddau y gall unigolion gael gafael ar wybodaeth am y gwasanaeth er mwyn eu galluogi i feithrin dealltwriaeth glir ohono a bod cofnodion sy'n ymwneud â'r ffordd y caiff y gwasanaeth ei ddarparu yn gywir, yn hygyrch ac ar gael i unigolion a'u cynrychiolwyr. **(Rheoliad 16, 40, 57)**

**Sut beth yw da**

***Canllawiau Statudol - Rheoliad 16 - Gwybodaeth am y gwasanaeth***

- Bydd canllawiau ysgrifenedig ar gael i'r unigolion a restrir yn rheoliad 16(2)(c)-(e), sy'n rhoi gwybodaeth am y gwasanaeth.
- Bydd y canllawiau mewn iaith syml ac ar fformat sy'n adlewyrchu anghenion, oedran a lefel dealltwriaeth y sawl y bwriedir y gwasanaeth ar ei gyfer. Bydd y llawlyfr ar gael mewn fformatau a thrwy gyfryngau sydd ar gael yn hwylus ac yn briodol i'r gynulleidfa. Er enghraifft, iaith briodol ac iaith o ddewis yr unigolyn, print mawr, sain, cymhorthion cyfrifiadurol a gweledol. Os bydd gofyn, defnyddir y dull cyfathrebu a ffefrir gan yr unigolyn neu'r gofalwr lleoli oedolion i'w esbonio.
- Os bydd gofyn, rhoddir cymorth i unigolion neu ofalwyr lleoli oedolion ddeall cynnwys y llawlyfr a'r hyn mae'n ei olygu iddynt hwy.
- Bydd y canllawiau yn rhestru'r meysydd sy'n ofynnol o dan reoliad 16(3) a bydd hefyd yn cynnwys y canlynol:
    - trefniadau ar gyfer cyflwyno'r unigolyn i'r gofalwr lleoli oedolion;
    - ethos, diwylliant a blaenoriaethau'r gwasanaeth lleoli oedolion, gan gynnwys crynodeb o'r datganiad o ddiben;
    - rôl y gofalwr lleoli oedolion yn y broses arolygu a gynhelir gan reoleiddiwr y gwasanaeth;
    - sut i gael gafael ar yr adroddiad arolygu diweddaraf a luniwyd gan y rheoleiddiwr gwasanaethau;
    - y staff allweddol a fydd yn rhoi cymorth i'r unigolyn a'r gofalwyr lleoli oedolion;
    - sut i gysylltu â'r unigolyn cyfrifol;
    - trefniadau ar gyfer diogelu a chwythu'r chwiban;
    - y weithdrefn gwyno a sut mae gwneud cwyn;
    - manylion cyswllt a rôl Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a'r rheoleiddiwr gwasanaethau;
    - mynediad, a help i gael mynediad at, wasanaethau eiriol perthnasol ac asiantaethau neu wasanaethau eraill, megis Gwasanaethau Gofal Iechyd sylfaenol (Meddyg Teulu; deintydd; optometrydd, fferyllydd, ciropodydd, ymweliadau â'r ysbyty); cludiant;
    - mynediad, a help i gael mynediad at, ddyfeisiau cyfathrebu digidol perthnasol a/neu dechnoleg gynorthwyol;
    - trefniadau ar gyfer mynegi barn a chymryd rhan yn y ffordd y caiff y gwasanaeth ei gynnal;
    - telerau ac amodau, gan gynnwys o dan ba amgylchiadau y gellid rhoi'r gorau i ddarparu'r lleoliad a chyfnodau rhybudd;

- gwybodaeth am y cymorth sydd ar gael i ofalwyr lleoli oedolion gan y darparwr gwasanaeth;
- sut gall unigolion neu ofalwyr lleoli oedolion gael gafael ar eu cofnodion eu hunain.

***Canllawiau Statudol - Rheoliad 40 - Cofnodion***

- Bydd polisi a gweithdrefnau ar waith ar gyfer nodi a rheoli cofnodion achosion.
- Bydd y staff yn ymwybodol o'r polisi ac yn deall yn glir y gweithdrefnau ar gyfer cofnodi a rheoli cofnodion. Bydd hyn yn cynnwys hyfforddiant ym maes gwarchod gwybodaeth a'r camau i'w cymryd pan fydd perygl i wybodaeth bersonol gael ei datgelu.
- Mae pob gofalwr lleoli oedolion yn ymwybodol o'r polisi a'r gweithdrefnau ar gyfer cofnodi a rheoli cofnodion. Mae gofalwyr lleoli oedolion yn deall pa wybodaeth y mae angen iddynt ei rhannu â'r darparwr gwasanaeth am yr unigolyn.
- Bydd darparwyr gwasanaethau'n cadw'r holl gofnodion sy'n ofynnol er mwyn amddiffyn unigolion a chynnal y gwasanaeth yn effeithiol yn unol â'r hyn a bennir yn Atodlen 2 o'r Rheoliadau.
- Bydd pob cofnod yn cael ei gadw'n ddiogel, yn cael ei ddiweddaru a bydd trefn dda arno. Cânt eu paratoi, eu cynnal a'u defnyddio yn unol â deddfwriaeth diogelu data a gofynion statudol eraill.
- Bydd cofnodion yn cael eu cadw'n ddiogel, gan gynnwys cofnodion electronig o dan warchodaeth cyfrinair.
- Bydd unigolion, gofalwyr lleoli oedolion a'r staff yn cael gweld unrhyw gofnodion a'r wybodaeth a gedwir amdanynt gan y darparwyr gwasanaethau yn unol â gofynion cyfreithiol cyfredol.

***Canllawiau Statudol - Rheoliad 57 - Dyletswydd i sicrhau bod systemau yn eu lle ar gyfer cadw cofnodion***

- Os bydd y cofnodion yn cael eu storio’n electronig, byddant yn ddiogel a bydd gan y staff godau mynediad unigol sy'n creu trywydd archwilio clir a fydd yn dangos pwy sydd wedi cofnodi unrhyw wybodaeth ac wedi diwygio unrhyw beth.

| **Arwain a Rheoli – Staffio** | **Rheoliad Cysylltiedig: 27, 28, 29, 30, 31, 32, 46, 47, 48, 49/50, 51** |
|---|---|
| **Llinell Ymholi 11:** Y graddau y mae unigolion a gofalwyr lleoli oedolion yn cael cymorth gan wasanaeth sy'n darparu nifer briodol o staff addas sydd â'r wybodaeth, y cymhwysedd, y sgiliau a'r cymwysterau i ddarparu gwasanaeth sy'n helpu i gyflawni canlyniadau personol yr unigolyn. **(Rheoliad *27-32, 46-51)*** | |
| **Sut beth yw da** | |

***Canllawiau Statudol - Rheoliad 27 – Staffio - Gofynion cyffredinol***

- Bydd gan ddarparwyr gwasanaethau ddull mesuradwy, systematig amlwg ar waith i bennu nifer y staff a'r ystod o sgiliau/cymwysterau sy'n ofynnol er mwyn darparu cymorth mewn ffordd ddibynadwy i ddiwallu anghenion unigolion gofalwyr lleoli oedolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Mae hyn yn ystyried, ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol:
    - y datganiad o ddiben;
    - anghenion gofal a chymorth yr unigolyn;
    - cefnogi a goruchwylio gofalwyr lleoli oedolion wrth iddynt ddarparu gofal a chymorth i unigolyn.
- Bydd lefelau staffio a'r cymysgedd sgiliau'n cael eu hadolygu'n barhaus ac yn cael eu haddasu i ymateb i anghenion y gwasanaeth wrth i'r rheini newid.
- Bydd trefniadau ar waith i ymateb i salwch neu absenoldeb staff er mwyn sicrhau bod anghenion unigolion a gofalwyr lleoli oedolion yn cael cymorth priodol.
- Bydd gweithdrefnau i'w dilyn os bydd argyfwng sy'n sicrhau bod digon o staff addas ar gael i ymateb i waith brys ac i wneud gwaith arferol y gwasanaeth.

***Canllawiau Statudol – Rheoliad 28 – Addasrwydd y staff***

- Bydd gan ddarparwyr gwasanaethau systemau trwyadl ar waith ar gyfer dethol ac archwilio cefndir pob aelod o'r staff ac ymgeiswyr i wirfoddoli er mwyn iddynt allu penderfynu a ddylid eu penodi neu eu gwrthod. Mae hyn yn cynnwys y wybodaeth sydd yn atodlen 1 o'r Rheoliadau. Mae hyn hefyd yn cynnwys sicrhau cywirdeb eu geirdaon a'u cyflogaeth.
- Os defnyddir staff asiantaeth, bydd darparwyr gwasanaethau'n sicrhau bod yr un archwiliadau'n cael eu cynnal ar eu cyfer ag a gynhelir ar gyfer staff a gyflogir yn barhaol, a bydd ganddynt dystiolaeth i ddangos bod yr archwiliadau hyn wedi'u gwneud. Gall hyn gynnwys cadarnhad a rhestrau gwirio a ddarperir gan unrhyw asiantaeth, lle y bo'r rhain yn ddigon dibynadwy a chadarn.
- Rhoddir ystyriaeth gadarnhaol i gynnwys unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, unrhyw gynrychiolwyr a gofalwyr lleoli oedolion wrth recriwtio staff newydd.

- Bydd gan ddarparwyr gwasanaethau broses ar waith i sicrhau bod y staff wedi cofrestru'n briodol â rheoleiddiwr proffesiynol a'r cofrestriad hwnnw'n un cyfredol lle bydd gofyn neu, lle y bo hynny'n berthnasol, eu bod ar gofrestr wirfoddol achrededig.
- Wedi ystyried yr holl wybodaeth sydd ar gael, bydd darparwyr gwasanaethau yn penderfynu a oes gan yr unigolyn y sgiliau, y cymwysterau a'r cymeriad da angenrheidiol i gyflawni'r rôl y mae'n cael ei gyflogi/ei roi ar waith i'w chyflawni.
- Os na fydd staff (gan gynnwys gwirfoddolwyr) yn cyflawni'r meini prawf addasrwydd mwyach a nodir yn rheoliad 28(2), bydd y darparwyr gwasanaethau yn cymryd camau priodol yn ddi-oed i sicrhau na fydd risg i unigolion. Er enghraifft, gallai'r rhain gynnwys:
    - hyfforddi a mentora;
    - darparu hyfforddiant a goruchwyliaeth ychwanegol;
    - defnyddio gweithdrefnau disgyblu.
- Bydd darparwyr gwasanaethau’n sicrhau bod staff yn cydymffurfio â’r codau ymarfer proffesiynol a, lle y bo hynny’n briodol, bydd darparwyr yn atgyfeirio achosion at y cyrff proffesiynol perthnasol yn achos staff lle mae amheuaeth ynghylch pa mor addas ydynt.
- Os oes unrhyw bryderon bod aelod o'r staff wedi cam-drin unigolyn neu wedi rhoi unigolyn mewn perygl o gael ei gam-drin, bydd y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ac unrhyw gorff cofrestru proffesiynol perthnasol yn cael gwybod gan y darparwr gwasanaethau'n ddi-oed.

***Canllawiau Statudol – Rheoliad 29 – Cefnogi a datblygu'r staff***

- Bydd darparwyr gwasanaethau’n sicrhau bod ganddynt raglen sefydlu sy’n rhoi’r adnoddau i bob aelod newydd o staff (gan gynnwys gwirfoddolwyr) fod yn hyderus yn eu rolau ac ymarfer, a’u galluogi i wneud cyfraniad cadarnhaol at lesiant unigolion sy’n defnyddio'r gwasanaeth.
- Bydd gweithwyr gofal cymdeithasol yn cwblhau'r rhaglen sefydlu berthnasol sy’n ofynnol gan Gofal Cymdeithasol Cymru o fewn yr amserlen sydd wedi’i diffinio yn ogystal ag unrhyw raglenni sefydlu sy’n benodol i’r gwasanaeth.
- Bydd y staff yn gallu cael gafael ar gopïau o unrhyw godau ymarfer proffesiynol perthnasol a chanllawiau ymarfer, gan gynnwys unrhyw rai sydd wedi'u cyhoeddi gan Gofal Cymdeithasol Cymru. Bydd y safonau sydd yn y codau a'r canllawiau ymarfer hyn yn cael eu hyrwyddo'n frwd.
- Pan ddefnyddir staff asiantaeth, rhoddir cyflwyniad i’r gwasanaeth iddynt sy'n cynnwys, ond heb ei gyfyngu i’r canlynol:
    - y datganiad o ddiben;
    - polisïau a gweithdrefnau craidd;
    - trefniadau rheoli a goruchwylio.
- Bydd y staff yn cael eu goruchwylio yn eu rôl i’w helpu i bwyso a mesur eu harferion a sicrhau eu bod yn cynnal safon eu

cymhwysedd proffesiynol. Bydd hyn yn cynnwys adborth am eu perfformiad gan unigolion a gofalwyr lleoli oedolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth.

- Bydd staff yn cyfarfod â'u rheolwr llinell neu swyddog cyfatebol, neu aelod uwch o’r staff, ar gyfer goruchwyliaeth un-i-un o leiaf bob chwarter.
- Bydd pob aelod o'r staff yn cael ei arfarnu bob blwyddyn a bydd hynny'n gyfle i roi adborth am ei berfformiad a nodi meysydd lle bydd angen hyfforddiant a datblygiad er mwyn ei gynorthwyo yn ei rôl.
- Bydd anghenion hyfforddi, dysgu a datblygu ychwanegol aelodau unigol o'r staff yn cael eu nodi yn ystod mis cyntaf eu cyflogaeth, ac fe'u hadolygir drwy gyfrwng y broses oruchwylio ac arfarnu.
- Bydd y staff yn cael cymorth i ymgymryd â hyfforddiant, i ddysgu ac i ddatblygu i'w galluogi i gyflawni gofynion eu rôl a diwallu anghenion yr unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth a gofalwyr lleoli oedolion.
- Bydd darparwyr gwasanaethau'n dadansoddi'r anghenion hyfforddi bob blwyddyn (neu'n amlach os bydd angen) er mwyn sicrhau bod gan y staff y sgiliau a'r cymhwysedd perthnasol i ddiwallu anghenion unigolion yn unol â’r datganiad o ddiben ar gyfer y gwasanaeth.
- Bydd darparwyr gwasanaethau'n cadw cofnod ysgrifenedig o'r holl hyfforddiant a goruchwyliaeth sydd wedi'u cwblhau, neu sydd i'w cwblhau, gan y staff.
- Bydd darparwyr gwasanaethau’n cynorthwyo'r holl staff i gwblhau, lle y bo hynny’n briodol:
    - hyfforddiant craidd
    - cymhwyster angenrheidiol a fyddai'n eu galluogi i barhau i gyflawni eu rôl;
    - hyfforddiant a gweithgareddau sy'n ofynnol at ddibenion datblygiad proffesiynol parhaus;
    - hyfforddiant arall y tybir ei fod yn briodol gan y darparwr gwasanaethau;
    - hyfforddiant craidd ac arbenigol ar gyfer eu rôl a nodwyd gan Gofal Cymdeithasol Cymru.

***Canllawiau Statudol - Rheoliad 30 - Cydymffurfio â chod ymarfer y cyflogwr***

- Bydd darparwyr gwasanaethau'n deall eu rôl a’u cyfrifoldebau’n glir gyda golwg ar y Cod Ymarfer i Gyflogwyr Staff Gofal Cymdeithasol (cyhoeddiad Gofal Cymdeithasol Cymru) a/neu godau ymarfer eraill sy'n gymwys i gyflogwyr a gyhoeddir gan Gofal Cymdeithasol Cymru o bryd i'w gilydd.

***Canllawiau Statudol – Rheoliad 31 – Gwybodaeth ar gyfer y staff***

- Bydd darparwyr gwasanaethau’n casglu gwybodaeth ac yn ei darparu ar gyfer y staff yn unol â'r datganiad o ddiben. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth am y materion a ganlyn:
    - ethos a diwylliant y gwasanaeth;

- yr ymddygiad a ddisgwylir gan staff neu bobl eraill sy'n gweithio yn y gwasanaeth;
  - rolau a chyfrifoldebau'r staff ac eraill sy'n gweithio yn y gwasanaeth;
  - polisïau a gweithdrefnau'r gwasanaeth;
  - y gofynion o ran cadw cofnodion;
  - cyfrinachedd a gofynion diogelu data;
  - gweithdrefnau disgyblu;
  - trefniadau ar gyfer rhoi gwybod am bryderon;
  - trefniadau ar gyfer pobl yn gweithio ar eu pen eu hunain.
- Bydd darparwyr gwasanaethau'n sicrhau bod y staff yn gallu cael gafael ar y copïau diweddaraf o'r holl bolisïau, gweithdrefnau a chodau ymarfer, a'u bod yn eu deall. Bydd darparwyr gwasanaethau'n sicrhau bod staff wedi darllen y rhain yn ystod y cyfnod sefydlu ac yn profi dealltwriaeth barhaus aelodau o staff drwy eu goruchwylio ac adolygu eu perfformiad.
- Bydd darparwyr gwasanaethau'n sicrhau bod y staff yn cyflawni eu dyletswyddau'n unol â gofynion polisïau a gweithdrefnau.
- Bydd yr holl staff yn cael disgrifiad swydd ysgrifenedig sy'n datgan eu cyfrifoldebau'n glir, y dyletswyddau y disgwylir iddynt eu cyflawni ar y pryd a'u llinell atebolrwydd.
- Cynhelir cyfarfodydd staff rheolaidd (o leiaf chwe chyfarfod y flwyddyn), a chaiff y materion a drafodir eu cofnodi gan gymryd camau priodol yn eu sgil.

***Canllawiau Statudol** – **Rheoliad 32 – Gweithdrefnau disgyblu***

- Bydd gan ddarparwyr gwasanaethau weithdrefn ddisgyblu, yn unol â chyfraith cyflogaeth, i ymdrin â pherfformiad ac ymddygiad gweithwyr. Mae hyn yn cynnwys:
  - gwybodaeth am yr hyn sy'n ymddygiad derbyniol ac annerbyniol a pha gamau a gymerir os bydd ymddygiad aelod o'r staff yn destun pryder;
  - y trefniadau ar gyfer atal aelod o'r staff o'i waith (neu ei drosglwyddo i ddyletswyddau eraill) yn ystod cyfnod pan fydd unrhyw honiadau o gamymddwyn difrifol, gan gynnwys honiadau o gam-drin neu bryderon difrifol ynghylch diogelwch neu lesiant unigolion yn destun ymchwiliad.
- Pan fydd darparwr gwasanaeth yn cymryd camau disgyblu yn erbyn unrhyw gyflogai ac mae'r cyflogai'n gadael cyn cwblhau'r broses ddisgyblu, ystyrir a fydd yn briodol atgyfeirio'r mater i'r heddlu, y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, Gofal Cymdeithasol Cymru neu unrhyw gorff proffesiynol arall.
- Os bydd amheuaeth ynghylch addasrwydd gwirfoddolwr, o ganlyniad i unrhyw gamymddwyn/diffyg cymhwysedd honedig sy'n peri pryder, bydd y darparwr gwasanaethau'n cymryd camau priodol ac amserol. Er enghraifft, gallai'r rhain gynnwys:
  - darparu hyfforddiant a goruchwyliaeth ychwanegol;

- terfynu trefniadau'r gwirfoddolwr;
- atgyfeirio at y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd neu'r heddlu, lle y bo'n briodol.

- Bydd y darparwr gwasanaethau'n sicrhau bod y staff yn ymwybodol o'r gweithdrefnau disgyblu a'r gweithdrefnau cwyno perthnasol, ac yn eu deall.
- Bydd adroddiad ysgrifenedig am unrhyw ymchwiliadau disgyblu a'r camau a gymerir yn cael ei gadw ar ffeil y gweithiwr yn unol â deddfwriaeth cyflogaeth a diogelu data.

***Canllawiau Statudol - Rheoliad 46 - Dyletswydd i benodi rheolwr***

- Rhaid i'r unigolyn cyfrifol sicrhau bod rheolwr sydd wedi'i gofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru (yn ddarostyngedig i reoliad 28(2)(e)) yn cael ei benodi ac yn ei le i reoli'r gwaith o ddarparu'r gwasanaeth o ddydd i ddydd ar gyfer pob man y darperir y gwasanaethau ynddo, ohono neu mewn perthynas ag ef.
- Bydd yr unigolyn cyfrifol yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb a'r atebolrwydd dros benodi'r rheolwyr, ni waeth a yw'n rhan uniongyrchol o'r broses recriwtio neu beidio.
- Bydd yr unigolyn cyfrifol yn dawel ei feddwl bod yr unigolyn a benodir i fod yn rheolwr y gwasanaeth yn meddu ar y wybodaeth, y sgiliau a'r cymhwysedd priodol i reoli'r gwasanaeth yn ddiogel ac yn unol â gofynion y Rheoliadau.
- Bydd yr unigolyn cyfrifol yn dangos bod diwydrwydd dyladwy wedi'i ddangos wrth benodi'r rheolwr yn ogystal â dilyn gofynion rheoliad 28 (addasrwydd staff).
- Os bydd rheolwr yn absennol am gyfnod o fwy na thri mis, bydd y darparwr gwasanaethau'n sicrhau bod rheolwr sydd â'r cymwysterau, y profiad a'r cymhwysedd priodol, ac sydd wedi'i gofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru (yn ddarostyngedig i reoliad 28(2)(3)), yn ei le i reoli'r gwasanaeth.

***Canllawiau Statudol - Rheoliad 47 - Gofynion o ran addasrwydd ar gyfer penodi rheolwr***

- Bydd gan yr unigolyn cyfrifol drefniadau addas i sicrhau bod y rheolwr yn addas ac yn alluog i redeg y gwasanaeth yn unol â'i ddatganiad o ddiben. Bydd hyn yn cynnwys sicrhau:
  - bod gan y rheolwr y cymwysterau priodol;
  - bod y rheolwr wedi'i gofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru (yn ddarostyngedig i reoliad 28(2)(e));
  - bod y rheolwr yn brofiadol o ran rheoli gwasanaethau gofal a darparu'r math o ofal a ddarperir;
  - bod y broses o archwilio cefndir darpar reolwyr yn cynnwys yr archwiliadau perthnasol sy'n ofynnol gan y rheoliadau i dawelu meddwl yr unigolyn cyfrifol bod yr unigolyn yn addas ac yn alluog i weithio gydag unigolion agored i niwed.

***Canllawiau Statudol - Rheoliad 48 - Cyfyngiadau ar benodi rheolwr ar gyfer mwy nag un gwasanaeth***

- Pan gaiff rheolwr ei benodi i reoli mwy nag un gwasanaeth, cytunir ar hyn ymlaen llaw â'r rheoleiddiwr gwasanaethau.

***Canllawiau Statudol - Rheoliad 49/50 - Dyletswydd i adrodd am benodi rheolwr i ddarparwr gwasanaeth ac i reoleiddiwr y gweithlu a'r rheoleiddiwr gwasanaethau***

- Bydd gan yr unigolyn cyfrifol drefniadau addas ar waith i:
    - hysbysu'r darparwr gwasanaethau am fanylion penodiad y rheolwr;
    - darparu'r wybodaeth a bennir gan y Rheoliadau sy'n ymwneud â'r unigolyn;
    - hysbysu'r rheoleiddiwr gwasanaethau a Gofal Cymdeithasol Cymru pan benodir rheolwr newydd.

***Canllawiau Statudol - Rheoliad 51 - Y trefniadau pan fydd rheolwr yn absennol***

- Bydd gan yr unigolyn cyfrifol strwythurau ar waith sy'n sicrhau, os na fydd y rheolwr ar gael neu os bydd yn absennol am unrhyw reswm, y bydd system ddirprwyo effeithiol a chymwys ar waith i ddarparu arweiniad o ddydd i ddydd sydd:
    - yn parhau i ddarparu cymorth i'r gofalwr lleoli oedolion a/neu'r unigolyn a leolwyd gyda'r gofalwr lleoli oedolion;
    - yn cynnal diogelwch, ansawdd ac effeithiolrwydd y gwasanaeth;
    - yn sicrhau cyn lleied o darfu â phosibl ar unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth a'r gofalwyr lleoli oedolion;
    - yn sicrhau y cydymffurfir â'r Rheoliadau;
    - yn cynnal datblygiad proffesiynol staff.
- Os na fydd y rheolwr, sydd wedi'i gofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru (yn ddarostyngedig i reoliad 28(2)(e)), ar gael neu os bydd yn absennol am unrhyw reswm am fwy na 28 diwrnod, bydd yr unigolyn cyfrifol yn hysbysu'r rheoleiddiwr gwasanaethau'n ysgrifenedig ac yn ddi-oed am y rheswm dros yr absenoldeb a'r trefniadau i ddarparu rheolwr yn ei le.

| Arwain a Rheoli – Chwythu'r chwiban | Rheoliad Cysylltiedig: 44, 61 |
|---|---|

**Llinell Ymholi 12:** Y graddau y mae pobl sy'n gweithio yn y gwasanaeth yn cael eu cefnogi i leisio pryderon am y gwasanaeth drwy weithdrefnau chwythu'r chwiban. **(Rheoliad 44, 61*)***

## Sut beth yw da

***Canllawiau Statudol - Rheoliad 44 - Chwythu'r chwiban***

- Mae polisi chwythu'r chwiban hygyrch ar waith. Mae hyn yn cynnwys:
  - y weithdrefn ar gyfer lleisio pryder;
  - y dulliau diogelu sydd ar waith ar gyfer staff neu ofalwyr lleoli oedolion sy'n lleisio pryder;
  - sut bydd pryderon yn cael eu hymchwilio.
- Bydd y staff a'r gofalwyr lleoli oedolion yn ymwybodol o sut mae lleisio pryderon, a byddant wedi cael hyfforddiant ar sut mae gwneud hyn, a bydd mecanweithiau a chymorth ar gael i'w galluogi i wneud hyn.
- Lle bynnag y bydd yn ymarferol, dylid cael cydsyniad i ddatgelu manylion pryder, os bydd angen, fel y gellir cynnal ymchwiliad effeithiol.
- Bydd cyfrinachedd yn cael ei sicrhau drwy gydol y broses ymchwilio oni fydd rhwymedigaethau proffesiynol neu statudol sy'n golygu na fyddai hyn yn bosibl, fel y rheini sy'n ymwneud â diogelu.
- Ni fydd unigolion na gofalwyr lleoli oedolion yn wynebu unrhyw erledigaeth nac unrhyw anfantais arall yn sgil mynegi eu pryderon.
- Dilynir trywydd pob honiad o gam-drin a phob digwyddiad o gam-drin yn ddi-oed yn unol â pholisi a gweithdrefnau diogelu'r darparwr gwasanaethau a'r trefniadau diogelu lleol.
- Bydd systemau ar waith i sicrhau bod pob pryder yn cael ei ystyried yn ddi-oed yn unol â pholisi a gweithdrefnau diogelu'r darparwr gwasanaethau. Mae hyn yn cynnwys:
  - cynnal adolygiad i bennu lefel yr ymchwiliad a'r camau y bydd gofyn eu cymryd ar unwaith, gan gynnwys atgyfeirio'r achos at yr awdurdodau priodol er mwyn cynnal ymchwiliad (gall hyn gynnwys ceisio cyngor gan reoleiddiwr y gwasanaeth neu staff diogelu yr awdurdod diogelu);
  - os gwelir bod meysydd lle mae angen gwella neu lle mae'r gwasanaeth yn methu, gweithredu ar y rhain ar unwaith;
  - sicrhau bod y staff ac eraill sy'n rhan o'r ymchwiliad yn deall y prosesau sy'n ymwneud â diogelu ac ymateb i bryderon.
- Cedwir cofnodion o bryderon a'u monitro i nodi tueddiadau a meysydd risg lle y gall fod angen cymryd camau ymlaen llaw. Bydd camau a gymerir wrth ymateb i chwythu'r chwiban yn ddarostyngedig i adroddiadau o fewn y trefniadau llywodraethu.

***Canllawiau Statudol - Rheoliad 61 - Cymorth ar gyfer staff sy'n codi pryderon***

- Bydd yr unigolyn cyfrifol yn sicrhau bod trefniadau addas ar waith fel bod:

- staff yn ymwybodol o'r polisi chwythu’r chwiban ac yn ei ddeall;
- y staff yn deall na chaniateir unrhyw fath o ofal gwael na methiant i ddiogelu llesiant oedolion;
- gan sicrhau bod y staff yn cael eu hannog a'u cefnogi i roi gwybod am broblemau;
- sicrhau bod y staff yn deall bod croeso ac anogaeth iddynt fynegi pryderon, ac na chânt eu hanwybyddu.

| Arwain a Rheoli – Rheoli arian unigolyn | Rheoliad Cysylltiedig: 23 |
|---|---|
| **Llinell Ymholi 13:** Y graddau y mae unigolion yn cael eu cefnogi i reoli eu harian. **(Rheoliad 23*)*** | |
| **Sut beth yw da** | |

***Canllawiau Statudol - Rheoliad 23 - Cefnogi unigolion i reoli eu harian***

- Bydd polisi a gweithdrefnau'n gosod trefniadau ar gyfer gofalwyr lleoli oedolion i roi cymorth i unigolion reoli eu harian. Mae hyn yn cynnwys:
    - sut mae unigolion yn cael anogaeth a chefnogaeth i ymdrin â'u materion ariannol eu hunain yn ôl eu dymuniad/lle bydd modd;
    - sut rhoddir cymorth i unigolion, gan gynnwys agor a rheoli cyfrifon banc unigol, cyllidebu a gwneud penderfyniadau ynghylch gwariant, lle y bo'n briodol;
    - sut y rhoddir cymorth i unigolion ddeall a rheoli unrhyw risgiau cysylltiedig.
- Caiff gofalwyr lleoli oedolion gymorth gyda threfniadau sy'n galluogi unigolion i gael gafael ar gymorth a chyngor annibynnol (gan gynnwys eiriolaeth) sy'n ymwneud â'u materion ariannol.
- Ni fydd staff neu bobl eraill sy'n gweithio yn y gwasanaeth neu ofalwyr lleoli oedolion sy'n ymwneud â'r gwasanaeth yn gweithredu fel asiant (i weithredu ar ran yr unigolyn) ar gyfer yr unigolyn oni bai fod ganddynt yr awdurdod cyfreithiol i wneud hynny.

| Arwain a Rheoli – Hysbysiadau | Rheoliad Cysylltiedig: 41, 63 |
|---|---|

**Llinell Ymholi 14:** Y graddau y mae cyrff rheoleiddio perthnasol ac asiantaethau statudol yn cael eu hysbysu lle bydd pryderon a digwyddiadau arwyddocaol yn effeithio ar unigolion. **(Rheoliad 41, 63*)***

**Sut beth yw da**

***Canllawiau Statudol** – **Rheoliad 41 – Hysbysiadau (darparwr gwasanaeth)***

- Bydd gan ddarparwyr gwasanaethau drefniadau priodol ar waith er mwyn i reoleiddiwr y gwasanaeth gael hysbysiad am y digwyddiadau a restrir yn Atodlen 3 o’r Rheoliadau.
- Bydd hysbysiadau’n cael eu gwneud yn ddi-oed, o fewn 24 awr i’r digwyddiad fel arfer.

***Canllawiau Statudol – Rheoliad 63 – Hysbysiadau (Unigolyn Cyfrifol)***

- Bydd gan yr unigolyn cyfrifol drefniadau addas i roi gwybod i reoleiddiwr y gwasanaeth am ddigwyddiadau a nodir yn Atodlen 4 y Rheoliadau.

| **Arwain a Rheoli – Cwynion** | **Rheoliad Cysylltiedig: 43, 56** |
|---|---|
| **Llinell Ymholi 15:** Y graddau y mae'r gwasanaeth yn hyrwyddo polisi a gweithdrefn gwyno hawdd i bobl eu defnyddio ac yn dangos ei fod yn dysgu yn sgil cwynion i wella'r gwasanaeth. **(Rheoliad 43, 56)** | |

**Sut beth yw da**

***Canllawiau Statudol - Rheoliad 43 - Polisi a gweithdrefn gwyno***

- Mae polisi cwyno ar waith. Mae hyn yn cynnwys manylion y gweithdrefnau fel y'u nodir yn rheoliad 43.
- Bydd gan ddarparwyr gwasanaethau bolisi cwyno hawdd ei ddefnyddio sy'n cynnwys, lle y bo'n briodol, rhoi cam datrys anffurfiol ar waith, a bydd yn esbonio:
    - pwy sy'n gallu gwneud cwyn ac ynghylch beth;
    - at bwy y dylid mynd i drafod pryder/cwyn;
    - sut gellir helpu unigolion a gofalwyr lleoli oedolion i wneud cwyn;
    - gwybodaeth am gael eiriolaeth annibynnol, os bydd ar gael;
    - sut yr ymdrinnir â chwynion;
    - camau ac amserlenni'r broses.
- Bydd y polisi mewn fformat hawdd ei ddarllen, wedi'i hysbysebu'n dda, ac ar gael yn rhwydd ac yn hygyrch i unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, unrhyw gynrychiolydd a gofalwyr lleoli oedolion.
- Bydd gwybodaeth am lwybrau cwyno eraill yn cael ei chynnwys i helpu achwynwyr os na fyddant yn fodlon ar y camau a gymerir gan y darparwr gwasanaethau. Er enghraifft, ceir gwybodaeth am weithdrefn gwyno'r awdurdod sy'n lleoli ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.
- Bydd unigolion a gofalwyr lleoli oedolion yn gallu cwyno yn ysgrifenedig neu ar lafar wrth y staff a dylid cydnabod y cwynion hyn oni fyddant yn ddienw.
- Bydd y staff yn ymwybodol o'r polisi a'r weithdrefn gwyno ac yn deall sut mae ymateb yn briodol i gwynion.
- Bydd darparwyr gwasanaethau'n sicrhau bod unrhyw sylwadau neu gwynion yn cael eu cadarnhau, yn cael sylw'n ddi-oed a bod yr achwynydd yn cael gwybod am unrhyw ddatblygiadau.
- Bydd adroddiad ysgrifenedig yn cael ei ddarparu i'r achwynydd yn nodi canlyniad y gŵyn ac unrhyw gamau i'w cymryd.
- Caiff cydsyniad ei sicrhau a chyfrinachedd ei gynnal drwy gydol y broses gwyno oni fydd rhwymedigaethau proffesiynol neu statudol sy'n golygu na fyddai hyn yn bosibl, fel y rheini sy'n ymwneud â diogelu.
- Bydd darparwyr yn sicrhau bod unrhyw gŵyn yn cael ei chydnabod, yn cael sylw'n ddi-oed a bod yr achwynydd yn cael gwybod am unrhyw ddatblygiadau, oni bai bod y gŵyn yn cael ei gwneud yn ddienw.
- Pryd bynnag y bydd yn ymarferol, dylid cael cydsyniad i ddatgelu manylion cwyn, os bydd angen, fel y gellir cynnal ymchwiliad.
- Bydd cyfrinachedd yn cael ei sicrhau drwy gydol y broses gwyno oni fydd rhwymedigaethau proffesiynol neu statudol sy'n

golygu na fyddai hyn yn bosibl, fel y rheini sy’n ymwneud â diogelu.

- Ni fydd unigolion yn wynebu unrhyw erledigaeth nac anfantais arall yn sgil gwneud cwyn.
- Bydd systemau ar waith i sicrhau bod pob cwyn yn cael ei hymchwilio yn unol â’r amserlenni sydd wedi’u nodi ym mholisi cwynion y darparwr gwasanaethau. Mae hyn yn cynnwys:
    - cynnal adolygiad i bennu lefel yr ymchwiliad a'r camau y bydd rhaid eu cymryd ar unwaith, gan gynnwys a fydd yn ofynnol atgyfeirio'r achos at yr awdurdodau priodol er mwyn cynnal ymchwiliad. Gallai hyn gynnwys y rheoleiddiwr gwasanaethau neu dimau diogelu'r awdurdod lleol;
    - os gwelir bod meysydd lle mae angen gwella neu lle mae'r gwasanaeth yn methu, gweithredu ar y rhain ar unwaith.
- Bydd gan y staff a'r bobl eraill sy'n ymwneud ag ymchwilio i gwynion y lefel gywir o wybodaeth a sgiliau i wneud hyn. Byddant yn deall proses gwyno'r darparwr gwasanaethau a byddant yn gyfarwydd ag unrhyw ganllawiau cyfredol cysylltiedig.
- Bydd cofnodion o gwynion yn cael eu cadw a'u monitro i nodi tueddiadau a meysydd risg lle y gall fod angen cymryd camau ymlaen llaw.
- Bydd adroddiad ynghylch y camau a gymerir i ymateb i gwynion fel rhan o'r trefniadau llywodraethu ar gyfer y gwasanaeth.

***Canllawiau Statudol - Rheoliad 56 - Dyletswydd i sicrhau bod systemau yn eu lle i gofnodi digwyddiadau a chwynion***

- Bydd yr unigolyn cyfrifol yn sicrhau bod trefniadau addas ar waith ar gyfer cofnodi'r materion a restrir yn rheoliad 56.
- Bydd gan yr unigolyn cyfrifol systemau a phrosesau ar waith i sicrhau bod unrhyw gofnodion sy'n cael eu cadw yn ddarllenadwy, yn gywir ac yn ddiogel.

| **Arwain a Rheoli** – Gofalwyr lleoli oedolion | **Rheoliad Cysylltiedig: 11, 12, 33, 34, 35, 36** |
|---|---|

**Llinell Ymholi 16:** Y graddau y mae gofalwyr lleoli oedolion yn cael eu cefnogi'n effeithiol gan ddarparwyr gwasanaethau er mwyn sicrhau y gallent ddiwallu anghenion gofal a chymorth yr unigolyn sydd wedi'i leoli gyda nhw. **(Rheoliad 11-12 a 33-36*)***

**Sut beth yw da**

***Canllawiau Statudol - Rheoliad 11 - Cytundeb gofalwyr***

- Bydd gan y darparwr gwasanaeth a'r gofalwyr lleoli oedolion gytundeb gofalwyr ar waith, a fyddai'n cwmpasu pob unigolyn sy'n cael ei leoli â'r gofalwr.
- Bydd y cytundeb gofalwyr yn cynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i'r canlynol:
    - priod rolau a chyfrifoldebau'r darparwr gwasanaeth a gofalwyr lleoli oedolion;
    - y polisïau a'r gweithdrefnau y mae'n rhaid i ofalwr lleoli oedolion weithredu yn unol â nhw;
    - y trefniadau y bydd y darparwr gwasanaeth yn eu rhoi ar waith er mwyn asesu ac adolygu'r safle, y cyfleusterau a'r cyfarpar a ddefnyddir gan y gofalwr lleoli oedolion wrth ddarparu gofal a chymorth mewn lleoliad oedolion posibl;
    - unrhyw ofynion o ran cefnogi unigolyn i gael gafael ar driniaeth, cyngor neu unrhyw wasanaethau eraill gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol neu weithiwr proffesiynol arall;
    - y trefniadau ar gyfer storio a gweinyddu meddyginiaethau yn ddiogel (lle y bo'n berthnasol);
    - y trefniadau i gefnogi unigolion i reoli eu harian;
    - gwybodaeth am y costau sy'n daladwy i'r gofalwyr lleoli oedolion gan y darparwr gwasanaeth;
    - gwybodaeth sy'n ymwneud â dod â'r cytundeb gofalwyr i ben.
- Bydd gan ddarparwyr gwasanaethau drefniadau effeithiol ar waith i fonitro ac adolygu'r goblygiadau sydd wedi'u gosod ar ofalwyr lleoli oedolion fel y'u nodir yn y cytundeb gofalwyr.
- Bydd gan ddarparwyr gwasanaethau drefniadau ar waith i sicrhau bod gofalwyr lleoli oedolion yn cymryd camau i gydymffurfio â'r cytundeb gofalwyr lle nodwyd nad ydynt yn gwneud hynny ar hyn o bryd.
- Bydd gan ddarparwyr gwasanaethau drefniadau ar waith i sicrhau bod y cytundeb gofalwyr yn dod i ben mewn modd amserol ac effeithiol. Lle bydd achos o ddod â chytundeb i ben yn effeithio ar leoliad presennol unigolyn, bydd y darparwr gwasanaeth yn ymgynghori â'r awdurdod perthnasol sy'n lleoli.
- Lle y bo'n briodol, bydd y darparwyr gwasanaethau'n sicrhau bod gofalwyr lleoli oedolion yn cael cyfle i ymateb i unrhyw bryderon a all fod gan y darparwr gwasanaeth mewn perthynas â'u haddasrwydd i fod yn ofalwyr lleoli oedolion, cyn gwneud

unrhyw benderfyniad i ddod â chontract i ben.

***Canllawiau Statudol - Rheoliad 12 - Cytundeb lleoli'r unigolyn***

- Bydd y gofalwr lleoli oedolion a'r unigolyn perthnasol sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn cael copi o'r cytundeb sy'n nodi:
  - gwybodaeth am y gwasanaeth a ddarperir;
  - gwybodaeth am y costau sy'n daladwy gan yr unigolion ac unrhyw gostau eraill a delir gan yr awdurdod sy'n lleoli;
  - telerau ac amodau'r lleoliad gan gynnwys yr ystafell a gaiff ei defnyddio, disgwyliadau cadw tŷ (gan gynnwys rheolau y cytunwyd arnynt i'r unigolyn eu dilyn), dod â chontractau i ben, cyfnod hysbysu, ac ati;
  - rhestr o bolisïau a gweithdrefnau allweddol y darparwr gwasanaeth a'r gofynion ar gyfer pob parti i gydymffurfio â nhw.
- Os bydd unigolion yn talu am eu gofal eu hunain yn llawn neu'n rhannol, byddant hwy, neu eu cynrychiolwyr yn cael contract ysgrifenedig. Mae hyn yn cynnwys:
  - telerau ac amodau;
  - ffioedd, gan gynnwys taliadau ychwanegol neu unrhyw ffioedd am dalu'n hwyr;
  - trefniadau ac amserlenni ar gyfer hysbysu unigolion am newidiadau i'r contract;
  - trefniadau ar gyfer gwneud taliadau.
- Pan fydd cynllun personol wedi'i adolygu i ystyried unrhyw anghenion gofal a chymorth yr unigolyn sy'n newid, caiff cytundeb lleoli'r unigolyn ei adolygu a, lle y bo'n briodol, ei addasu yn unol â hynny.
- Bydd gan y darparwr gwasanaeth drefniadau ar waith er mwyn adolygu cytundeb lleoli'r unigolyn yn unol â rheoliad 12(7). Cynhelir unrhyw adolygiadau sy'n cynnwys yr unigolyn, y gofalwr lleoli oedolion, a, lle y bo hynny'n briodol, unrhyw gynrychiolydd, gyda chytundeb yr unigolyn.
- Bydd gan ddarparwyr gwasanaethau drefniadau effeithiol ar waith i fonitro ac adolygu'r rhwymedigaethau sydd wedi'u gosod ar ofalwyr lleoli oedolion fel y'u nodir yng nghytundeb lleoli'r unigolyn.
- Bydd gan ddarparwyr gwasanaeth drefniadau ar waith i sicrhau bod gofalwyr lleoli oedolion yn cymryd camau i gydymffurfio â chytundeb lleoli'r unigolyn lle nodwyd nad ydynt yn gwneud hynny ar hyn o bryd.
- Bydd gan y darparwyr gwasanaethau drefniadau ar waith i sicrhau bod lleoliad yr unigolyn yn dod i ben mewn modd amserol ac effeithiol.
- Lle y bo'n briodol, bydd y darparwyr gwasanaethau'n sicrhau bod gofalwyr lleoli oedolion yn cael cyfle i ymateb i unrhyw bryderon a all fod gan y darparwr gwasanaeth mewn pethynas ag addasrwydd y lleoliad (gan gynnwys unrhyw ofal a chymorth a ddarperir i unigolyn sydd wedi'i leoli gyda nhw) cyn gwneud unrhyw benderfyniad i ddod â lleoliad i ben.
- Bydd gofalwyr lleoli oedolion ac unigolion yn cael cymorth pan fydd y lleoliad yn dod i ben, pan fydd wedi'i gynllunio neu mewn argyfwng.

***Canllawiau Statudol – Rheoliad 33 – Recriwtio a hyfforddi gofalwyr lleoli oedolion***

- Bydd gan ddarparwyr gwasanaethau bolisïau a gweithdrefnau ar waith ar gyfer recriwtio a hyfforddi gofalwyr lleoli oedolion er mwyn diwallu anghenion yr unigolyn y mae'n bwriadu darparu gwasanaeth ar ei gyfer.
- Bydd darparwyr gwasanaethau'n sicrhau bod y rheini sydd â diddordeb mewn dod yn ofalwyr lleoli oedolion yn cael eu trin yn deg, heb ragfarn, yn agored a gyda pharch. Ymdrinnir ag ymholiadau yn gwrtais ac yn effeithlon gan staff sydd â'r wybodaeth a'r sgiliau angenrheidiol.
- Rhoddir gwybodaeth amserol a pherthnasol i ddarpar ofalwyr lleoli oedolion yn dilyn eu hymholiad gwreiddiol a chânt y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd unrhyw broses recriwtio ddilynol.
- Mae'r broses recriwtio wedi'i phennu'n glir i ddarpar ofalwyr lleoli oedolion, gan gynnwys:
    - y rhinweddau, y sgiliau neu'r galluoedd sy'n cael eu ceisio neu eu cyflawni;
    - y safonau i'w cymhwyso i'r broses asesu;
    - camau a chynnwys y broses ddethol a'r amserlenni posibl sy'n rhan o hynny;
    - y wybodaeth a gaiff ei rhoi i ymgeiswyr.
- Bydd darparwyr gwasanaethau yn sicrhau bod gofalwyr lleoli oedolion sydd wedi cael eu recriwtio gan y gwasanaeth yn cael hyfforddiant yn unol â'r Rheoliadau hyn er mwyn diwallu anghenion gofal a chymorth unrhyw unigolion sydd wedi'u lleoli gyda nhw.
- Bydd darparwyr gwasanaethau yn sicrhau bod gofalwyr lleoli oedolion yn cael yr hyfforddiant angenrheidiol er mwyn eu galluogi i ddarparu gofal a chymorth i unrhyw unigolyn sydd wedi'i leoli gyda nhw yn unol â chynllun personol yr unigolyn. Mae meysydd hyfforddiant penodol wedi'u pennu yn y Rheoliadau hyn.
- Bydd darparwyr gwasanaethau yn sicrhau bod unrhyw hyfforddiant a ddarperir (sefydlu, parhaus neu fel arall), i ofalwyr lleoli oedolion yn unol â'r canllawiau cenedlaethol.
- Bydd gan ddarparwyr gwasanaethau drefniadau ar waith i fonitro ac adolygu'r hyfforddiant a ddarperir i ofalwyr lleoli oedolion a'u gallu i ddarparu cymorth a gofal o ansawdd uchel. Mae hyn yn bwydo i mewn i'r adolygiad o Ansawdd y Gofal.

***Canllawiau Statudol – Rheoliad 34 – Cydberthnasau effeithiol***

- Bydd gan ddarparwyr gwasanaethau drefniadau ar waith i oruchwylio'r gofalwr lleoli oedolion a'r unigolyn sydd wedi'i leoli gydag ef.
- Bydd darparwyr gwasanaethau yn cefnogi gofalwyr lleoli oedolion i ddatblygu a chynnal cydberthynas gadarnhaol â'r unigolyn sydd wedi'i leoli gyda nhw.

***Canllawiau Statudol – Rheoliad 35 – Cymorth a gwybodaeth ar gyfer gofalwyr lleoli oedolion***

- Bydd darparwyr gwasanaethau yn sicrhau bod gofalwyr lleoli oedolion yn cael y cymorth a'r wybodaeth angenrheidiol er mwyn eu galluogi i ddarparu gofal a chymorth i unigolyn sydd wedi'i leoli gyda nhw yn unol â chynllun personol yr unigolyn. Mae meysydd cymorth a gwybodaeth penodol wedi'u pennu yn y Rheoliadau hyn.
- Bydd gan ddarparwyr gwasanaethau drefniadau ar waith i fonitro ac adolygu'r cymorth a'r wybodaeth a ddarperir i ofalwyr lleoli oedolion. Mae hyn yn bwydo i mewn i'r adolygiad o ansawdd y gofal.
- Bydd darparwyr gwasanaethau'n sicrhau bod gofalwyr lleoli oedolion yn cael hyfforddiant sefydlu sy'n cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i:
  - y datganiad o ddiben;
  - polisïau a gweithdrefnau craidd.
- Bydd gofalwyr lleoli oedolion yn cael adborth, lle y bo ar gael, yn ystod unrhyw leoliad neu wedi hynny.
- Bydd gofalwyr lleoli oedolion yn cael cymorth i ymgymryd â hyfforddiant perthnasol er mwyn eu galluogi i gyflawni gofynion eu rôl.
- Bydd darparwyr gwasanaethau'n sicrhau bod gofalwyr lleoli oedolion yn ymwybodol o'r cymorth sydd ar gael iddynt yn ystod unrhyw honiadau / cwynion a wnaed yn eu herbyn.
- Bydd gan ddarparwyr gwasanaethau drefniadau ar waith i gefnogi gofalwyr lleoli oedolion y tu allan i oriau swyddfa safonol, a bydd gofalwyr lleoli oedolion yn gyfarwydd â'r trefniadau hyn.

***Canllawiau Statudol – Rheoliad 36 – Addasrwydd gofalwyr lleoli oedolion***

- Bydd gan ddarparwyr gwasanaethau systemau dethol a fetio trwyadl ar waith er mwyn eu galluogi i wneud penderfyniad o ran cymeradwyo person i fod yn ofalwr lleoli oedolion. Mae hyn yn cynnwys y wybodaeth sydd yn atodlen 1 i'r Rheoliadau.
- Wedi ystyried yr holl wybodaeth sydd ar gael, dylai darparwyr gwasanaethau benderfynu a oes gan y person sy'n cael ei ystyried i fod yn ofalwr lleoli oedolion y sgiliau, y profiad a'r cymeriad angenrheidiol i gyflawni rôl gofalwr lleoli oedolion.
- Os na fydd gofalwr lleoli oedolion yn cyflawni'r meini prawf addasrwydd a nodir yn rheoliad 36(2) mwyach, bydd darparwyr gwasanaethau yn cymryd camau priodol yn ddi-oed yn unol â rheoliad 36(7) i sicrhau na fydd risg i unigolion. Er enghraifft, gallai hyn gynnwys darparu hyfforddiant a goruchwyliaeth ychwanegol.
- Os oes unrhyw bryderon bod gofalwr lleoli oedolion wedi cam-drin unigolyn neu wedi rhoi unigolyn mewn perygl o gael ei gam-drin, bydd y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn cael gwybod gan y darparwr gwasanaethau yn ddi-oed.

| **Yr Amgylchedd – Yr Amgylchedd Cyffredinol** | **Rheoliad Cysylltiedig: 37, 38, 39** |
|---|---|

**Llinell Ymholi 17:** Y graddau y mae darparwyr gwasanaethau yn sicrhau bod gofal a chymorth yn cael eu darparu ar gyfer unigolion mewn lleoliad ac amgylchedd a, lle y bo hynny'n berthnasol, â chyfleusterau ac offer sy'n eu hybu i gyflawni eu canlyniadau personol. (**Rheoliad 37-39**)

**Sut beth yw da**

***Canllawiau Statudol – Rheoliad 37 – Gofyniad cyffredinol***

- Rhaid i leoliad, cynllun a maint y safle fod yn addas ar gyfer y gwasanaeth sy'n cael ei ddisgrifio yn y datganiad o ddiben.

***Canllawiau Statudol – Rheoliad 38 – Addasrwydd y safle (darparwr gwasanaeth)***

- Bydd gan ddarparwyr gwasanaethau le addas ar y safle, fel ystafell gyfarfod a rennir, i sicrhau preifatrwydd ar gyfer goruchwylio staff.
- Bydd cofnodion yn cael eu cadw'n ddiogel yn unol â gofynion deddfwriaethol.

***Canllawiau Statudol - Rheoliad 39 - Safleoedd, cyfleusterau a chyfarpar (gofalwr lleoli oedolion)***

- Bydd gan ddarparwyr gwasanaethau drefniadau ar waith i fonitro'r safle, y cyfleusterau a'r cyfarpar a ddefnyddir gan ofalwyr lleoli oedolion wrth ddarparu gofal a chymorth i unigolyn sydd wedi'i leoli gyda nhw.
- Bydd darparwyr gwasanaethau'n sicrhau bod safleoedd gofalwyr lleoli oedolion yn addas ar gyfer y lleoliad; yn hygyrch, yn ddiogel ac wedi'u cynnal yn dda, ac yn diwallu anghenion gofal a chymorth yr unigolyn mewn modd cysurus a chartrefol. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod safleoedd yn ddiogel, yn lân ac yn darparu digon o olau addas, a bod gwres ac awyru ar gael yn rhwydd.
- Bydd gan safleoedd gofalwyr lleoli oedolion fynediad addas at gyfleusterau lleol, trafnidiaeth leol a gwasanaethau cymorth perthnasol, i ddiwallu anghenion yr unigolyn.
- Mae safleoedd gofalwyr lleoli oedolion yn gwbl hygyrch i unigolion sy'n defnyddio cadeiriau olwyn, lle y bo'n berthnasol. Mae hyn yn cynnwys mynediad gwastad i'r cartref a drysau mawr yn yr ardaloedd cymunedol, ystafell yr unigolyn a'r cyfleusterau ymolchi a thoiled ac unrhyw ardaloedd eraill y mae gan ddefnyddwyr cadair olwyn fynediad iddynt.